

# CYNLLUN STRATEGOL HARLECH



Ariennir yn Rhannol gan  
**Lywodraeth Cymru**  
Part Funded by  
**Welsh Government**





Mewn partneriaeth gyda

**Macgregor - Smith**  
Landscape Architecture



***Arwel  
Jones  
Associates***

**HOWARD BOWCOTT**

**Statws:** Adroddiad Drafft fersiwn 6

**Adolygwyd:** 25.10.2017

**Cyhoeddwyd:** 24.10.2017

## 1. Cynnwys

1.	Diben.....	1
	Cam 1 – Dechreuad a Gwaith Desg .....	2
	Cam 2 – Arfarniad a Chwmpas Cychwynnol .....	2
	Cam 3 – Datblygu Gweledigaeth a Chynigion .....	2
2.	Harlech Heddiw.....	4
	Lleoliad.....	4
	Cymuned.....	4
	Cyd-destun Diwylliannol.....	7
	Y Lle Ffisegol.....	8
	Cefndir Ffisegol a Pholisi.....	10
	Y Cynnig a'r Profiad Presennol o'r Dref .....	11
	Ymchwil Gwestyau .....	12
	Ymdrin â Chyflenwad a Galw.....	12
	Y Sail Dystiolaeth .....	12
	Holi Perchnogion Gwestyau.....	13
	Maint a Safleoedd .....	14
	Asedau Ffisegol a Mannau Cyhoeddus.....	17
	Castell Harlech.....	20
	Cymorth Twristiaeth .....	20
3.	Themâu a Syniadau.....	22
4.	Ymgynghori – Beth Ddywedodd Pobl.....	42
	Sylwadau Cyffredinol.....	45
5.	Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau .....	47
	Tymor Byr .....	50
	Tymor Canolig.....	52
	Tymor Hir .....	57
	Cysoni Gweithgareddau seiliedig ar le, Marchnata a Chysylltedd .....	58

	Buddsoddiadau Strategol.....	59
	Cysoni/Cefnogi Asedau Lleol .....	61
	Harlech – Cymuned a Chyrchfan Cydlynus.....	62
	Camau i'w cymryd ar unwaith .....	63
	Amserlen .....	64
6.	Allbynnau a Chanlyniadau .....	66
	Integreiddio .....	71
	Rhwystro .....	71
	Cydweithio.....	71
	Cynnwys y gymuned.....	71
7.	Cyflawni trwy Gydweithio .....	73
	Llywodraethu a Rheoli .....	73
	Grwpiau Tasg Thematig .....	73
	Cydgysylltu Cymunedol .....	74
	Cyllid.....	74
	Llywodraeth Cymru.....	74
	Cyllid Loteri .....	76
	Eraill.....	77

## Cydnabyddiaeth Lluniau

Clawr blaen, tudalennau 19 a 59: © Hawlfraint y Goron (2017)  
Cadw, Llywodraeth Cymru



**DIBEN**

## 1. Diben

### Nodau ac Amcanion yr Astudiaeth

*Y prif amcan allweddol yw "cyflwyno set glir o gynigion cadarn sy'n dangos sut y gall y sector cyhoeddus hwyluso a chydweithio gyda busnesau preifat a'r gymuned, ac ychwanegu gwerth at ddatblygiad economaidd y dref gan fanteisio i'r eithaf ar botensial economaidd cynaliadwy y dref".*

Fe wnaeth Cyngor Gwynedd, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, benodi Chris Jones Regeneration ym mis Mai 2017 i weithio gyda'r bartneriaeth leol a'r gymuned i ffurfio Gweledigaeth benodol a dogfen a fydd yn gosod y blaenoriaethau strategol i arwain y bartneriaeth aml-sector wrth gefnogi adfywio Harlech.


Fe wnaeth briff Cyngor Gwynedd ar gyfer yr astudiaeth nodi amryw o fygythiadau sylweddol sy'n wynebu Harlech y mae angen i'r astudiaeth hon roi sylw iddynt, sef:

- Mae Addysg Oedolion Cymru wedi cadarnhau ei fwriad i gau'r Coleg;
- Mae ansicrwydd ynghylch y buddsoddiadau sydd eu hangen ar gyfer adfywio'r Theatr;
- Mae safle gwesty Dewi Sant yn dal i ddirywio, gan greu dolur llygad amlwg i drigolion, ymwelwyr a darpar fuddsoddwyr;
- Mae diffyg buddsoddi wedi bod yn seilwaith y Clwb Golff i'w alluogi i gystadlu ar y safon uchaf;

- Mae cyfyngiadau cysylltedd a chyfyngiadau parcio i fysiau, sy'n cyfyngu ar y nifer o ymwelwyr a all fanteisio ar y buddsoddiad yn y Castell;
- Mae ansicrwydd ynghylch dyfodol rhai gwasanaethau cyhoeddus yn sgil y newid ym mhroffil y boblogaeth a newid mewn trefniadau cyflwyno gwasanaethau;
- Mae tueddiadau ymwelwyr wedi newid gyda nifer cynyddol o ymwelwyr dydd i'r dref, a wynebir her i gynyddu arosiadau dros nos.

Amcanion penodol y gwaith felly yw:

- Mynegi gweledigaeth glir y cytunwyd arni ar y cyd ar gyfer adfywio Harlech a'r ardal o gwmpas (sy'n seiliedig ar ystyriaethau strategol cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, dadansoddi data a rhagweld tueddiadau);
- Archwilio prosiectau posibl a fydd yn llwyddo er gwaethaf yr holl heriau a bygythiadau a nodwyd;
- Blaenoriaethu a datblygu'r cyfleoedd o fewn graddfeydd amser a nodi cyrff i arwain y gweithredu;
- Adnabod cyfleoedd o sut y gall sector cyhoeddus hwyluso a chryfhau'r cyfleoedd a nodwyd;
- Ffurio dogfen a fyddai'n nodi blaenoriaethau strategol y bartneriaeth aml-sector i gefnogi adfywio Harlech a'i gyd-destun ehangach (tymor byr/canolig/hir);
- Datblygu model o gydweithio rhwng sefydliadau cyhoeddus, preifat a chymunedol.



## Proses yr Astudiaeth

Mae'r tasgau a'r gweithgareddau canlynol wedi cael eu cwblhau:

### Cam 1 – Dechreuad a Gwaith Desg

- Cynhaliwyd cyfarfod dechreuol a chyhoeddwyd nodyn ar gerdded o amgylch y dref yn Harlech gyda'r swyddog cleient

### Cam 2 – Arfarniad a Chwmpas Cychwynnol

- Arfarniad desg o astudiaethau blaenorol, cynlluniau neu strategaethau a fabwysiadwyd a dogfennau gwaelodlin erall, fel:
- Unrhyw bolisiâu a rhaglenni perthnasol Llywodraeth Cymru ee Strategaeth Ardal Fenter Eryri
- Strategaetau a chynlluniau allweddol Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri: datblygu economaidd, cynllun datblygu lleol, twristiaeth/rheoli cyrchfan, etc.
- Asesiadau treftadaeth, cymeriad o'r dref - Cadw
- Dadansoddi data economaidd-gymdeithasol (darparuwyd gan y cleient):
  - Data'r Cyfrifiad am wardiau
  - Data STEAM a mathau eraill o ddata ymwelwyr ar gyfer Castell Harlech
- Cyfweiliadau rhanddeiliaid allweddol gyda:
  - Llywodraeth Cymru
  - Cyngor Gwynedd
  - Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

- CADW
- Addysg Oedolion Cymru – Coleg Harlech
- Theatr Ardudwy
- Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant
- Harlech a'r Cylch
- Cymedithias Twristiaeth a'r Cylch
- Harlech yn Weithredol
- Sesiwn gweithdy gyda rhanddeiliaid lleol ar 12 Mehefin yng nghaffi Canolfan Ymwelwyr Castell Harlech i ddeall materion a chyfluoedd allweddol
- Asesiad ffisegol o'r dref a'r ardal sydd wedi edrych ar:
  - Safleoedd strategol allweddol ac ardaloedd y tu allan i'r dref;
  - Mannau cyrraedd allweddol. A gaiff Harlech ei gyhoeddi'n dda a beth yw'r prif ffyrdd i mewn i draffig lleol ac ymwelwyr?
  - Cysylltedd rhwng y dref newydd a'r hen dref.
  - Beth yw ansawdd amgylchedd canol y dref?
  - Sut ydym ni'n denu ymwelwyr â'r Castell i aros ac ymweld â'r dref?
  - Pa sectorau twristiaeth allweddol y dylai Harlech geisio'u datblygu a'u gwella – treftadaeth a diwylliannol, gweithgaredd awyr agored a chwaraeon, gweithgareddau cynadleddau?

Mae adroddiad cychwynnol wedi cael ei gynhyrchu ar wahân, sy'n dod â'r holl ganfyddiadau a'r dadansoddiadau cychwynnol ynghyd. Cyflwynwyd hwn i Harlech ar Waith a'r sefydliadau sy'n perthyn iddo.

### Cam 3 – Datblygu Gweledigaeth a Chynigion

- Datblygu gweledigaeth, syniadau a chynnyg drafft
- Trefnu a chynnal digwyddiad ymgynghori cymunedol ar 26 Gorffennaf yn y Neuadd Goffa, Twtil, Harlech
- Darparu arolwg ar-lein ac ar bapur ar gyfer adborth ar syniadau a chynigion
- Datblygu gweledigaeth a blaenoriaethau strategol terfynol



# HARLECH HEDDIW

## 2. Harlech Heddiw



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 2011  
10002207

## Lleoliad a Chysylltiadau

### Lleoliad

Mae'r dref ar arfordir Bae Ceredigion hanner ffordd rhwng Abermaw 10 milltir i'r de a Phorthmadog 10 milltir i'r gogledd, ar yr A496 rhwng y mynyddoedd a'r môr.

### Cymuned

Mae gan Harlech boblogaeth breswyl o 1,931<sup>1</sup>. Mae gan y dref gyfran uwch na'r cyfartaledd o bobl dros 65 oed (27% Harlech, 20.7% Gwynedd) a chyfran is na chyfartaledd Gwynedd (51%) o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.

Mae hyn yn adlewyrchu poblogrwydd y dref fel anheddiad ymddeol, a hyn yn ei dro yn adlewyrchu ei lleoliad trawiadol ar arfordir Bae Ceredigion a'i hanes fel cyrchfan wyliau ers dyfodiad yr rheilffyrdd yn yr 1860au.

Mae natur y gymuned i'w gweld yn ffisegol yn nhopograffi Harlech, y gellir ei ddisgrifio fel tair ardal benodol o anheddiad, wedi eu haenu'n glir ar y lleoliad serth ar ochr llethr.

Mae'r datblygiad preswyl sydd wedi digwydd yng ngwaelod Harlech oddi ar priffordd yr A496 wedi bod ers yr 1970au i raddau helaeth ac mae'n cynnwys tai fforddiadwy, a feddiennir i raddau helaeth gan deuluoedd a fagwyd ac sy'n byw yn lleol. Yn bensaernïol, mae'r ardal hon yn cynnwys datblygiad ar ffurf stadau, ond hefyd y datblygiad tai amlwg, Glan Gors, a godwyd fel fflatiau gwyliau, yn hytrach na phreswylfeydd parhaol. Gwerth nodweddiadol fflat deulawr tair llofft gyda gardd ar y cyd a pharcio oddi ar y stryd yn Glan Gors fyddai tua £65,000.

<sup>1</sup> Cyfrifiad 2011



Mae anheddiad sefydledig hŷn o gwmpas y castell a'r strydoedd serth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Stryd Fawr. Yr hyfrydwch pensaernïol a gweledol hwn o'r llethrau o doeau, lonydd ymdroellog a thai teras hanesyddol sy'n ymateb i siâp pedol y dref yw craidd yr Ardal Gadwraeth ddynodedig. Rhoddir pris o £180,000 a mwy ar dŷ teras bach tair llofft yn y rhan hon o'r dref, heb ddim lle parcio oddi ar y stryd, a gerddi wedi eu cyfyngu gan dai cyfagos ac wyneb y graig. Caiff y rhan hon o'r dref ei meddiannu gan gymysgedd o drigolion lleol o broffil oedran uwch yn nodweddiadol, gyda chyfran uchel o dai gwyliau. Yn y cyfnod Edwardaidd, cafodd yr anheddiad hynafol hwn ei fewnlenwi fel yr oedd y tirwedd yn caniatáu, gyda thai llawer mwy â gerddi helaeth yn lledaenu'r anheddiad ar hyd ochr y llethr i'r de. Cafodd y tai sylweddol, hunan-gynwysedig hyn eu hadeiladu ar gyfer trigolion â chyfoeth sylweddol oedd yn symud i mewn. Maent wedi dod yn elfen ddeniadol o'r dreflun, wrth fewnlenwi ac ategu'r adeiladau cynhenid lleol â phensaernïaeth a ysbrydolwyd gan gelf a chreffft a gerddi aeddfed mawr.

Uwchben yr ardal hon mae llawer o'r tai newydd mwy llewyrchus a ddatblygwyd ar hyd yr hen ffordd uchaf i Llanfair dros y 40 mlynedd ddiwethaf. Nodweddir yr ardal hon â golygfeydd eang o'r môr, lle parcio oddi ar y stryd a gerddi sylweddol, gyda phrisiau uchel sy'n cyfateb i hynny ar y tai. Bydd pris tŷ tair llofft ar ardal Hen Ffordd Llanfair o Harlech yn cychwyn yn aml ar £450,000 a mwy. Mae'r ardal hon yn boblogaidd gyda phobl wedi ymddeol a pherchnogion tai gwyliau cyfoethog.

Mae nodweddion ac asedau allweddol o fewn y gymuned yn cynnwys:

### **Meysydd Carafanau**

Mae tri maes carafannau o fewn Harlech ei hun – Min Y Don, Woodlands a Fferm Merthyr, a chyfleusterau mawr iawn ym Mochras, Llanbedr, gerllaw.

### **Darpariaeth Ddiwylliannol, Addysgol a Hamdden**

#### **Coleg Harlech**


Cafodd Plas Wern Fawr ei adeiladu'n wreiddiol fel cartref gwledig yn 1907–10 i'r ffotograffydd a rheolwr-gyfarwyddwr Kodak, George Davison, adeilad

a gafodd ei ddylunio yn y dull Celf a Chreffft gan y pensaer George Walton. Daeth yn Goleg Harlech yn 1927, yn cynnig addysg ail gyfle i weithwyr, yn ddynion a merched. Caiff Coleg Harlech ei redeg gan Addysg Oedolion Cymru. Mae'r cyfuniad o newidiadau diweddar i gyllid myfyrwyr a mwy o ddefnydd o dechnoleg gwybodaeth a dysgu yn y gweithle yn golygu nad yw'n hyfyw bellach rhedeg Coleg Harlech fel coleg preswyl. Mae cystadleuaeth hefyd o du coleg llwyddiannus Llandrillo/Meirion Dwyfor yn Nolgellau a Pwllheli. Caiff y coleg a'r adeilad ei weld gan drigolion lleol fel un o asedau allweddol Harlech. Mae hwn yn adeilad sydd ag eiriolwyr angerddol ac mae angen i ddatblygiadau posibl gydnabod a chofleidio'r nodwedd gadarnhaol hon.

#### **Theatr Ardudwy**

Mae'r Theatr, a ddyluniwyd gan y pensaer Ralph Colwyn Foulkes a'i gwblhau yn 1972, yn enghraifft dda o bensaernïaeth glasur *Brutalist* Prydeinig, a gydnabyddir yn ei hawl ei hun gan Cadw fel adeilad wedi'i raddio â dwy seren, o 2016. Mae'n cadw'r cyfan fwy neu lai o'i nodweddion gwreiddiol a'i ganolbwynt yw awditoriwm 256-sedd, sy'n addas ar gyfer perfformio byw a ffilm.

Yn anffodus, ni chaiff yr agwedd gyhoeddus hon ei gwireddu gan y defnydd presennol o'r adeilad. Ar ben hyn, mae pryderon ynghylch diogelwch rhywfaint o'r talwyneb addurniadol o goncrid wedi arwain at osod rhwyll wifrog amddifynnol ar rannau cyhoeddus amlwg o'r adeilad.



Er bod y theatr yn agored i fusnes, nid yw'n cyflwyno'i hun â ffryntiad cyhoeddus gweithredol. Mae llawn botensial yr ased hwn yn dal heb gael ei brofi.

Caiff y theatr ei rhedeg gan fwrdd o swyddogion gwirfoddol a'i staffio gan gymysgedd o rywffaint o staff taledig, ond yn bennaf gan wirfoddolwyr. Mae adeilad y theatr yn uniongyrchol gysylltiedig ag adeilad y Coleg. Bydd y Coleg yn hytrach yn symud o adeilad y coleg yn haf 2017 i ran o adeilad y theatr.

#### Y Llyfrgell a'r Hen Lyfrgell

Caeodd Llyfrgell Harlech ym mis Mai 2017. Mae rhan y llyfrgell o'r adeilad yn dal i aros am ddefnydd pellach, tra bod yr Ysgol Feithrin yn dal i feddiannu hanner arall yr adeilad. Defnyddir yr Hen Lyfrgell ar y Stryd Fawr fel cyfleuster cymunedol sylfaenol ar gyfer dosbarthiadau nos achlysurol a darpariaeth canolfan ddydd galw heibio.



#### Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy

Mae canolfan hamdden Harlech wedi'i lleoli yng ngwaelod y dref gerllaw'r fynedfa i'r traeth, yr ysgol a meysydd carafannau. Mae'n cynnwys pwll 25m, caffi â 40 o seddau gyda theras haul allanol a wal ddringo 400 metr sgwâr gyda 50 o ddringfeydd hyd at 10m o uchder. Mae'r ganolfan wedi ei gosod o amgylch y pwll a oedd ynddo cynt, ac fe'i hagorwyd yn 2012. Caiff ei rhedeg fel ymddiriedolaeth gydweithredol, sef menter gymdeithasol a reolir gan Fwrdd o Gyfarwyddwyr Gwirfoddol sydd wedi'i ffurfio o bobl o'r gymuned a'i gefnogi gan grŵp o wirfoddolwyr.

#### Darpariaeth Addysgol

Mae'r ddwy ysgol wedi'u lleoli yn rhan isaf y dref. Mae Ysgol Tan y Castell yn darparu ar gyfer plant 4 i 11 oed o Harlech ac mae Ysgol Ardudwy yn darparu addysg uwchradd i ddisgyblion 11 i 16 oed o Harlech ac o ddalgylch ehangach. Mae gan Ysgol Ardudwy gaeau chwarae helaeth ac mae'r neuadd chwaraeon yn agored ar gyfer defnydd cymunedol gan ddbynnu ar oriau ysgol.

#### Y Ganolfan Iechyd

Cwblhawyd y Ganolfan Iechyd newydd yn 2015 ac mae yn rhan isaf y dref. Gwrthododd y bwrdd iechyd ganiatáu iddi fod yn feddygfa fferyllol. Er bod hyn yn anghyfleus i gleifion mae'n gwella'r hyn sydd gan y Stryd Fawr i'w gynnig, gan fod y rheini sy'n dymuno cael eu presgripsiwn yn Harlech yn defnyddio'r fferylllydd ar y Stryd Fawr. Fe wnaeth y gweithdy rhanddeiliaid nodi bod lle parcio y tu allan i'r fferyllfa yn hanfodol.

#### Cyd-destun Diwylliannol

Mae'r statws Safle Treftadaeth y Byd i'w briodoli i'r Castell a godwyd yn yr 1280au ond mae hanes yr ardal yn mynd yn ôl yn llawer pellach na hyn. Cyfeirir at yr ardal fel Ardudwy yn y Mabinogi, yn enwedig yn hanes Branwen a Bendigeidfran. Ar y llethrau y tu ôl i'r dref mae meini o'r Oes Haearn a llwybrau hynafol. Defnyddid y llwybrau hyn gan borthmyn i yrru anifeiliaid dros fynyddoedd y Rhinogydd i farchnadoedd yn Lloegr. Daeth dyfodiad y rheilffyrdd yn yr 1860au â diwedd i'r ffyrdd porthmyn, ond pery llethrau'r Rhinogydd a'u waliau cerrig trawiadol a'u partrymau caeau

hanesyddol i fod yn ffurf nodweddiadol yng Nghymru o ucheldir pori defaid, gyda rhai gwartheg.

Fe wnaeth y tirwedd hwn, ei natur cymharol anghysbell a'r capeli anghydfurfiol gyfuno i ddiogelu'r iaith Gymraeg; mae'r iaith yn fyw iawn ymhlith y boblogaeth leol ac yn un o drysorau diwylliannol yr ardal. I'r tirwedd cymdeithasol hwn, fe wnaeth haen o ymsefydlu Seisnig ychwanegu ei ddehongliadau diwylliannol ei hun. Yn negawdau cynnar yr 20fed ganrif, roedd y perchnogion tai gwyliau a'r mewnfudwyr yn cynnal pasiantau mawreddog yn y dref a oedd yn arddangos gwisgoedd a setiau ffansi. Roedd adeiladu'r Wern Fawr gan George Davison a'i Neuadd Fawr ac adeiladu Theatr Ardudwy yn ddiweddarach yn rhan o'r cyd-destun hwn, gan ychwanegu at gyfoeth diwylliannol yr ardal.

Y potensial yn Harlech yw rhoi sylw i'r problemau economaidd a ffisegol o fewn y cyd-destun diwylliannol hwn, gan ychwanegu at dreftadaeth yr ardal ac ansawdd y ddarpariaeth i drigolion ac ymwelwyr.

### Y Lle Ffisegol

Cafodd y lle ei gynllunio fel caer gadarn mewn lleoliad trawiadol ac mae'r llawer o'r nodweddion hyn yn parhau. Maent ar unwaith yn rhoi i'r castell a'r dref eu naws unigryw o le, yn ogystal â'r anawsterau o ddynesu atynt. Mae dynodiad UNESCO o Harlech fel Safle Treftadaeth y Byd yn nodi nodweddion hanfodol y dref fel a ganlyn:

*Mae'r berthynas hanfodol rhwng eu tirweddau arfordirol a phob castell yn dal i fod yn gyfan ac mae rhyng-berthynas agos y castell a'r dref yn dal i fod yn nodwedd drawiadol o dirwedd trefol y dyddiau hyn*

Lleolir Castell Harlech ar benrhyn creigiog serth, sydd bron yn fertigol, sbardun allanol o'r bryniau mewndirol sy'n dod yn agos at y gwastatir arfordirol ar y pwynt hwn. Roedd datblygiad y dref wedyn, a gofnodwyd mewn mapiau hanesyddol, yn dilyn patrwm hynafol o strydoedd a ddatblygwyd i ddygymod â'r tir, fel bod rhai o'r strydoedd serthaf yng Nghymru sydd â phobl yn byw ynddynt i'w gweld yma.



Mae'n lle o olygfeydd trawiadol sy'n cynnwys y castell ei hun, panorama eang yr arfordir ysgubol, a golygfeydd dramatig o Eryri a Phenrhyn Llŷn.

Mae rhychwant y lleoliad dramatig i'w weld ar ei waelod: gwastatir o laswellt a thwyni, a ddefnyddir yn rhannol ar hyn o bryd fel cwrs golff ac sy'n ymestyn draw i'r gogledd am 3 milltir. Roedd y môr, neu o leiaf y blaendraeth, unwaith yn cyrraedd gwaelod craig y castell ond mae hyn wedi cael ei ddisodli gan waddodiad tywod. Mae'r traeth tywodlyd, sy'n eang ar lanw isel, yn anarferol o lydan gyda graddiant bychan, ac fe'i cefnogir gan system o dwyni. Mae'r bwlch rhwng y mynyddoedd a glan y môr yn cynnwys y prif gysylltiadau trafniadaeth i'r gogledd a'r de: ffordd arfordirol yr A496 a rheilffordd Arfordir y Cambrian sy'n cysylltu'r trefi ar hyd yr arfordir gorllewinol o Bwllheli trwy Borthmadog i Amwythig a chysylltiadau â phrif rwydwaith rheilffyrdd Prydain.

Rhoddir statws a chydabyddiaeth swyddogol i bwysigrwydd unigol yr elfennau hyn gan gyfuniad prin o ddynodiadau cynllunio cenedlaethol a lleol: mae'r Castell yn Safle Treftadaeth y Byd, mae'r dref gyfan o fewn Parc Cenedlaethol Eryri, mae rhan uchaf y dref yn Ardal Gadwraeth gyda nifer o Adeiladau Rhestredig, caiff y Cwrs Golff ei raddio fel yr ail orau yng Nghymru ac mae hefyd yn cynnwys Ardal o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, cydnabyddir y twyni arfordirol fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol, mae'r Theatr sydd ynghlwm wrth y Coleg yn ased lleol sefydledig ac uchel ei barch. Mae'r dref hefyd wrth gwrs yn enwog o'r gân Gwŷr Harlech.

Mae gan hyd yn oed yr olygfa fesur o amddiffyniad: mae bwâu golygfeydd cydnabyddedig a warchodir o'r Castell. Mae disgrifiad UNESCO, wrth gyfeirio at y pedwar castell yn yr ardal, yn nodi'r canlynol:

Gwarchodir y pedwar ohonynt gan Gynlluniau Lleol, Canllawiau Cynllunio a'u Cynlluniau Rheoli Treftadaeth y Byd a adolygir yn rheolaidd; mae Harlech o fewn Parc Cenedlaethol Eryri ac mae pob un o'r pedwar o fewn Ardaloedd Cadwraeth sy'n cynnwys lleoliad y Cestyll a Muriau'r Dref. Mae eu lleoliad ehangach wedi cael ei ddisgrifio fel 'lleoliadau hanfodol' a gwarchodir golygfeydd allweddol.

Ar yr wyneb, dylai Harlech fod ar frig cyrchfannau mwyaf poblogaidd Cymru. Mae hyd yn oed y microhinsawdd o'i blaid. Eto er gwaethaf hyn mae'n gorwedd mewn rhyw fath o dir neb rhwng y cyrchfannau sy'n ffynnu – Porthmadog a Phenrhyn Llŷn, Abermaw, Aberdyfi a Bae Ceredigion – ac atyniadau antur Eryri. Nid yw Harlech yn lle mae'r cyhoedd yn meddwl amdano, ac nid yw'r arwyddion yn help: yn aml mae'r arwyddion ffyrdd yn fach, di-sylw ac nid ydynt yn rhoi fawr o awgrym o'r cyfoeth o atyniadau sydd i'w gael yno.


Mae'r adrannau canlynol yn cynnig crynodeb o adroddiad cychwynnol yr astudiaeth.

## Canfyddiadau Cychwynnol Allweddol

### Cefndir Ffisegol a Pholisi

- Arfordir Bae Ceredigion – Harlech rhwng y mynyddoedd a'r môr – mae'r lleoliad yn bwynt gwerthu unigryw
- Castell Harlech – safle Treftadaeth y Byd – statws UNESCO
- Tref o fewn Parc Cenedlaethol Eryri
- Cwrs Golff Brenhinol Dewi Sant – wedi ei raddio fel yr ail orau yng Nghymru
- Strategaeth Twristiaeth Llywodraeth Cymru 2013-2020 yn adnabod angen strategol yng Nghymru am wyliau moethus o'r radd flaenaf a fydd yn newid delwedd Cymru, ac a gefnogir gan Cynllun Rheoli Cyrchfannau Cyngor Gwynedd
- Mae cynllun corfforaethol Cyngor Gwynedd yn adanbod angen am swyddi o werth uchel a gwell seilwaith digidol a gefnogir gan Ardal Fenter, yn benodol Maes Awyr Llanbedr
- Caiff Harlech ei adnabod fel anheddiad gwasanaethau o fewn y Parc Cenedlaethol gyda rôl ddeuol i'w gymuned ac fel cyrchfan ymwelwyr
- Mae ar Cadw eisiau defnyddio'r statws safle Treftadaeth y Byd i gefnogi amrywiaeth economaidd gynaliadwy a thwf yn yr economi leol a rhanbarthol
- Y prif ddiwydiant o ran cyflogaeth yw gwasanaethau llety a bwyd
- Mae cyfran uwch o bobl wedi ymdeol yn byw yn Harlech na'r cyfartaledd yng Nghymru gyda her allweddol o gadw pobl o oedran poblogaeth myfyrwyr
- Mae gan Faes Awyr Llanbedr botensial i gynhyrchu buddion i Harlech trwy greu galw am lety, cadwyni cyflenwi byr a chynyddu'r defnydd o wasanaethau, bwyd a diod lleol ac ymestyn

Ffigur 1 – Diwydiant Cyflogaeth




Source; 2011 Census

## Y Cynnig a'r Profiad Presennol o'r Dref

- Mae'r buddsoddiad yng Nghastell Harlech wedi arwain at adnewyddu ei apêl a chynnydd mewn ymwelwyr
- Mae canol y dref yn gymharol gryf ar nwyddau cymharol ond yn wan ar siopau hwylustod er bod nwyddau heblaw bwyd yn fyr o rai nwyddau a chynhyrchion dyddiol sy'n debygol o fod ar gael ym Mhorthmadog
- Cyfradd eiddo gwag o 16% gydag adeiladau gwag wedi'u gwasgaru ar hyd canol y dref gyda rhai adeiladau allweddol yn cael eu tan-ddefnyddio
- Mae clwstwr yn datblygu o siopau nwyddau tŷ, offer tŷ, hen bethau ac eitemau casgladwy
- Mae'r cynnig o fwyd a diod yn dibynnu ar gaffis yn bennaf gydag angen i wella'r economi fin nos a'r cynnig o fwyd gan gynnwys tarddiad lleol a'r profiad o fwyta o fewn lleoliad safle Treftadaeth y Byd
- Ymwelwyr: 89% yn aros oddi cartref neu ar wyliau; 52% yn deuluoedd, 32% yn gyplau; arhosiad cyfartalog yn y Castell ½ awr i 1 ½ awr; 103,000 o ymwelwyr i'r castell yn 2016, cynnydd o dros 30%
- Mae'r profiad o'r arfordir a'r mynyddoedd yn Eryri yn tueddu i gynnwys ymwelwyr o fewn ardal o 25 milltir o'u llety i'r lleoedd maent yn ymweld
- Dim ond 7% o lety yng Ngwynedd a wasanaethir, gyda dim ond tri gwesty â 4 seren neu fwy
- Mae Gwesty Dewi Sant yn ddolur llygad difrifol; y gorchymyn dymchwel bellach wedi dod i ben
- Mae'r tŵr preswyl yn ddolur llygad ond nid oes gorchymyn dymchwel
- Gallai dyfodol ansicr adeilad Coleg Harlech a gofrestrwyd â Gradd II\* a Theatr Ardudwy arwain at gollu asedau allweddol – yn ddiwylliannol, treftadaeth a gweledol
- Mae gan y Theatr y sinema digidol diweddaraf ac mae'n cynnig lle i fynd ar dywydd gwlyb, ond mae'n ymddangos fel petai wedi cau
- Er gwaethaf y buddsoddiad sylweddol gan Cadw yng Nghastell Harlech a chyfleusterau cysylltiedig i ymwelwyr, mae'n dal i fod ganfyddiad negyddol nad yw Harlech wedi cael cyfran deg o adfywio a buddsoddi

Ffigur 2 – Asedau a Chyfleusterau'r Dref



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd OS; Chris Jones Regeneration

## Ymchwil Gwestyau

Un o'r prif faterion a ddaeth i'r amlwg o drafodaethau gyda swyddogion a rhanddeiliaid lleol yw'r diffyg llety gwyliau o safon a wasanaethir yn nhref Harlech. Mae hyn am sawl rheswm:

- a) Diwedd ar hen Westy Dewi Sant a arferai gynnig dros 60 o loffydd i amrywiaeth helaeth o gleientiaid, gan gynnwys golffwyr, partion bws ac ymwelwyr cyffredinol â Harlech
- b) Y diffyg llety o ganlyniad i'r rheini sy'n dymuno chwarae golff fel ymwelwyr dydd ac yn enwedig i gymryd rhan mewn cystadlaethau a thwrnameintiau yng Nghlwb Golff Brenhinol Dewi Sant
- c) Buddsoddiad sylweddol yn ddiweddar gan Cadw yn y ganolfan ymwelwyr newydd, bwyty a'r fynedfa i Gastell Harlech, gan arwain at gynydd sylweddol mewn niferoedd o ymwelwyr dydd â'r dref sydd bellach â mwy o ymwybyddiaeth o Harlech a'r hyn sydd gan y dref i'w gynnig
- d) Marchnad ymwelwyr dros nos domestig a thramor sydd â'r potensial o fod yn werthfawr, yn elwa ar statws Safle Treftadaeth y Byd y Castell a'i gysylltiadau â'r tri lleoliad arall yn y safle Treftadaeth y Byd
- e) Llwyddiant Gwynedd wrth ddatblygu ei hun fel cyrchfan twristiaeth awyr agored drwy'r flwyddyn ar sail ei atyniadau naturiol trawiadol ac atyniadau chwaraeon adrenalin poblogaidd iawn diweddar
- f) Rhagolygon Wern Fawr i'r dyfodol, canolfan bresennol Coleg Harlech, ochr yn ochr â Theatr Ardudwy fel cyfleuster diwylliannol
- g) Potensial Maes Awyr Llanbedr i ddenu busnesau a chleientau technoleg awyrofod a systemau awyrennau di-beilot (RPAS) o ansawdd uchel i'r ardal, a fydd angen llety

## Ymdrin â Chyflenwad a Galw

Dyma'r ffordd yr aethom ati i ddeall cyflenwad a galw am westy newydd:

1. Dadansoddiad o arolwg stoc gwelyau Gwynedd
2. Dadansoddiad o ddata twristiaeth STEAM Gwynedd
3. Cyfweliadau â pherchnogion gwestyau o fewn dalgylch Harlech
4. Gwybodaeth am y cynnig presennol o lety
5. Dadansoddiad o safleoedd posibl yn Harlech


## Y Sail Dystiolaeth

Dangosodd Cynllun Rheolaeth Cyrchfan Gwynedd 2013-2020, a ddatblygwyd trwy ymgynghori ag amrywiaeth helaeth o randdeiliaid ac a gefnogir gan gorff sylweddol o dystiolaeth empirig, fod, yn ôl Arolwg Stoc Gwelyau Gwynedd 2011, dros 78% o'i 125,000 o welyau twristiaid o fewn y sector carafannau a gwersylla, bron i 13% mewn hunan-arlwy, ychydig dros 6% mewn llety â gwasanaeth a'r gweddill mewn ffurfiau eraill o lety. Daeth i'r casgliad fod yr amrywiaeth cyfyngedig o lety â gwasanaeth (yn enwedig gwestyau o safon) yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymestyn y tymor trwy wyliau byr (ac i gynyddu gwariant cyfartalog y pen gan ymwelwyr sy'n aros).

Mae'r Cynllun Rheolaeth Cyrchan yn mynd ymlaen i ddweud: *Nid yw'r hinsawdd economaidd presennol yn ffafriol i ddenu buddsoddiad, yn enwedig lle gall enillion ar fuddsoddiad fod yn rhai tymor hirach, fel yn y sector twristiaeth. Fodd bynnag, yn wyneb amrywiaeth cyfyngedig llety â gwasanaeth Gwynedd a'r twf sy'n debygol o barhau yn y math o ymwelwyr sy'n gweld Gwynedd yn ddeniadol (fel rhai sy'n frwd gyda gweithgareddau neu gyplau â phlant sydd wedi gadael y nyth yn ceisio dihangfa dawel yn harddwch cefn gwlad), dylid cadw llygad barcud am gyfle i ddenu buddsoddiad mewn llety o safon â gwasanaeth – ac yn enwedig gwestyau. Gallai cynnydd mewn llety â gwasanaeth o safon helpu Gwynedd i dyfu ei dwristiaeth trwy ddenu ymwelwyr o gyfran o'r farchnad sy'n tan-berfformio yng Ngwynedd ar hyn o bryd, o gymharu â'i berfformiad mewn lleoedd eraill yn y Deyrnas Unedig.*



Ffigur 3 – Dadansoddiad o fathau o lety



Ffynhonnell: Arolwg Stoc Gwelyau Twristiaeth 2010/2011, Cyngor Gwynedd

O ddata STEAM (model i asesu tueddiadau, swm a gwerth gweithgareddau twristiaeth) 2015 ar gyfer Gwynedd, roedd 7 o westyau gyda 50+ o lofftydd yn y sir, 51 gyda 10-50 o lofftydd a 272 gyda llai na 10 o lofftydd. Rhyngddynt i gyd, roedd y rhain yn cynnwys amcangyfrif o 6185 o welyau, o gymharu â 98442 o welyau mewn llety heb wasanaeth.

Mae data diweddar gan Croeso Cymru ar westyau wedi eu graddio yn dangos bod 10 o westyau tair seren yng Ngwynedd, 2 pedair seren ac un sefydliad pum seren. Mae chwe gwesty wedi derbyn cydnabyddiaeth Gwobr Aur.

<sup>2</sup> Mae'r pellter yn cyfateb i gyfartaledd amser gyrru o 1 awr i ymwelwyr sy'n crwydro ardal o'r lle maent yn aros

Wrth chwilio ar-lein ar TripAdvisor neu Booking.com gwelwn nifer cyfyngedig o westyau bach, tai bwyta ag ystafelloedd, tai llety a thai gwely a brecwast, gyda'r sefydliadau mawr agosaf tua 8-10 milltir i ffwrdd ym Mhortmeirion neu Borthmadog. Nid yw cynlluniau i ailddatblygu gwesty Maes Y Neuadd gerllaw wedi dod i'r amlwg eto ac ni ellir felly eu cynnwys ar hyn o bryd.

Mae trafodaethau gyda Chastell Harlech ynghylch ei ymwelwyr a ddaw yno mewn coetsys wedi dangos galw gan rai o'r prif gwmnïau bysiau am westy ar gyfer gwyliau bws yn ardal Harlech. Byddai hyn yn eu galluogi i aros dros nos yn lleol ac yn rhoi lle aros mwy strategol na'r un a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghaernarfon. Er hynny, nid yw twristiaeth bws, er yn farchnad â photensial o ran maint, yn cael ei adnabod fel categori gwariant uchel, gyda chwsmeriaid yn tueddu i fod yn hŷn ac ar gyllideb gyfyngedig holl-gynhwysol.

#### Holi Perchnogion Gwestyau

Fel rhan o'r broses ymchwil, cyfwelwyd â nifer o ddarparwyr llety a oedd wedi eu lleoli o fewn 25 milltir<sup>2</sup> o amser gyrru ac a gafodd eu hadnabod o nifer o ffynonellau, gan ddefnyddio cyfleuster chwilio<sup>3</sup> am lety Croeso Cymru a detholiad o ddarparwyr llety trwy'r casgliad Welsh Rarebits<sup>4</sup>. Gofynnwyd i berchnogion a gwestywyr ynghylch

- niferoedd o ymwelwyr presennol
- proffil ymwelwyr – pwy ydynt, o le maent yn dod, rhesymau dros ymweld etc
- deiliadaeth (gan gynnwys amrywiadau tymhorol os oedden nhw'n fodlon dweud
- unrhyw bryderon am golli cwsmeriaid a barn ynghylch màs critigol o safbwynt cynnig am westy i Harlech

<sup>3</sup> <http://www.visitwales.com/accommodation-search/accommodation-search-results?location=harlech&industry=Hotels&arrivalDate=01%252>

<sup>4</sup> <http://www.rarebits.co.uk/hotels.php>

Fe wnaeth crynodeb o safbwyntiau arwain at gonsensws y byddai gwesty o'r safon iawn a'r amrywiaeth iawn o gyfleusterau yn ychwanegu at apêl strategol Gwynedd ac, o fewn Meirionnydd, y byddai'n golygu cynnig mwy cydlynus a hyder wrth ymweld â'r ardal fel lle i aros. Nid oedd gwestywyr yn pryderu y byddai'n arwain at golli gwesteion ond yn hytrach y byddai cystadleuaeth yn iach a hefyd yn denu ymwelwyr i'r ardal yn ystod rhan dawelach o'r cyfnod twristiaeth. Pwysleisiwyd yr angen am gael y sgiliau iawn i ddatblygu a rhedeg gwesty llwyddiannus gan nifer o'r rhai a gyfwelwyd, gan nodi methiannau blaenorol, yn ogystal â chael y gronfa o lafur i gyflogi'r math a'r nifer iawn o staff gwesty.

### Maint a Safleoedd

Nodir isod awgrymiadau ar gyfer fformat a maint y gwesty, ar sail 40 o lofftydd, ond gyda'r hyblygrwydd i gynyddu i 50-70 o lofftydd gan ddibynnu ar y safle.

Croeso	Cyntedd, derbynfa-swyddfa gefn Toiledau / llesiant cyffredinol Bar Bwyty (lle i tua 120)
Llety	10 ystafell safon uwch/teuluol @50m2 yr un 30 ystafell dau wely neu ddwbl @ 30m2 yr un
Llesiant	Sba/ystafelloedd triniaeth Campfa fach Lle llesiant: tai chi, ioga Pwll bach/gorlif
Arall	Lle cynadleddau/ystafelloedd cyfarfod
Atodol	Cegin, storfa sych ac oer Ystafell sychu: golffwyr, cerddwyr Lle cadw beiciau Cefn y tŷ- dillad gwely, storfa, swyddfa

Arfarwyd nifer o safleoedd sydd wedi eu lleoli ar hyd yr A496. Gosodwyd ôl-troed o 3,000 metr sgwâr (32,000 troedfedd sgwâr) ar dri safle a ddangosir isod.

Dangosir dadansoddiad o'u haddasrwydd ar y dudalen gyferbyn.



## Arfarniad o Ddewisiadau

## Dewis 1 – Hen Safle Gwesty Dewi Sant

Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynsail i westy o ddarpariaeth flaenorol</li> <li>Mae caniatâd cynllunio ar gyfer y safle sydd wedi cael ei weithredu gydag ysgubor i ystlumod</li> <li>Caiff y safle ei weld fel dolur llygad o fewn y gymuned leol a byddai ei wella yn cael ei groesawu o fewn lleoliad y Safle Treftadaeth y Byd</li> <li>Gorchymyn dymchwel (S215) wedi cael ei gyflwyno i'r tîrfeddiannwr</li> <li>Gallai'r safle gynnwys y gwesty 30-40 o loffydd ar lefel uwch</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Canfyddiad nad yw'r perchennog yn gwneud fawr o ymdrech a bod y safle'n segur</li> <li>Y gorchymyn dymchwel wedi dod i ben heb unrhyw gamau wedi eu cymryd gan y tîrfeddiannwr ac achos llys wedi ei gymryd gan yr awdurdod cynllunio lleol</li> <li>Amryw o bridiannau tir a buddiannau ar y tir sydd ag oblygiadau i'r sector cyhoeddus wrth dalu am y dymchwel a risg uchel o beidio ag adfer costau</li> <li>Tŵr preswyl gerllaw, sy'n eiddo i berchennog hen westy Dewi Sant, ddim yn destun gorchymyn ond caiff ei weld yn lleol fel dolur llygad ac mae'n effeithio ar apêl weledol safleoedd ar hyd yr A496 i ddarpar fuddsoddwyr</li> </ul>

## Dewis 2 – Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant

Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'r llety yn cefnogi'r Clwb Golff yn uniongyrchol ac yn ei gyflwyno fel pecyn twristiaeth golff ac yn helpu twf a hyfywedd yn y dyfodol ac yn cynnal statws y Clwb Golff</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fyddai'r lleoliad a'r cysylltiad â'r Clwb Golff yn apelio at farchnadoedd ymwelwyr eraill ee teuluoedd, bysiau</li> <li>Byddai angen cytundeb ar fynediad trwy safle'r ganolfan hamdden</li> <li>Byddai ôl-troed yr adeilad yn un sylweddol i'r safle a'r lleoliad a gallai lethu canolfan y clwb golff gerllaw</li> </ul>

## Dewis 3 – Ail-ddatblygu Adeiladau Amwynderau Coleg Harlech

Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladau'n segur ac angen eu hail-ddefnyddio</li> <li>Adeiladau'n eiddo i barti sy'n fodlon chwilio am ddefnydd arall</li> <li>Mynedfa i'r safle wedi'i sefydlu</li> <li>Agor i'r clwb golff</li> <li>Byddai'n helpu i ddiwallu'r galw am lety ar gyfer cystadlaethau a thwrnameintiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai'n gofyn am ailfodelu mewnol sylweddol ac adnewyddu i'w drawsnewid o amwynder i lety gwyliau â gwasanaeth o safon</li> <li>Y ddealltwriaeth ar y funud yw y byddai ar gael ar sail prydles yn unig ac y byddai felly'n annhebygol o ddenu buddsoddiad cyfalaf</li> <li>Mynediad cyfyng i gerbydau mwy</li> </ul>

## Dewis 4 – Safle Coleg Harlech

Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Adeiladau'n eiddo i barti sy'n fodlon chwilio am ddefnydd arall</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Byddai costau trawsnewid adeilad rhestredig Gradd II* yn sylweddol o gymharu ag adeiladu o'r newydd</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai adeilad y Theatr gynnal gweithgaredd pwrpas deuol i'r farchnad gynadleddau yn ogystal â rhoi parhad i Theatr Ardudwy</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Efallai na fydd adeilad y Theatr yn cael ei weld fel rhywbeth sy'n ategu cynnig y gwesty</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae gan y safle berthynas uniongyrchol â rhannau isaf ac uchaf y dref</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Angen ystyried lefelau'r safle a sut y byddai'r prif adeilad a'r annecs yn gweithio</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae Coleg Harlech yn berchen ar faes parcio a choetir cyfagos a allai gyfrannu at gyfleusterau ac at y profiad</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai cadw rhywfaint o ddarpariaeth dysgu oedolion effeithio ar ôl-troed yr adeilad a hyfywedd cynnig o westy</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Diogelu adeilad rhestredig Gradd II* gyda chymeriad unigryw a fyddai'n gyson â thwristiaeth treftadaeth, a fyddai'n rhoi cymeriad unigryw i'r ail-ddatblygiad</li> </ul>	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai cadw darpariaeth addysg oedolion gefnogi galw am ddarpariaeth gwesty</li> </ul>	

## Dewis 5 – Safleoedd Eraill

Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gan ddibynnu ar y safle a statws cynllunio, gallai safleoedd eraill fod yn haws eu gweithredu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall ffin ddatblygu'r dref gyfyngu ar gyfleoedd i adeiladu o'r newydd</li> </ul>
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gall olygu ail-ddefnyddio adeiladau segur neu rai a danddefnyddir ar hyn o bryd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyfyngiadau posibl o ran seilwaith, gwasanaethau, lleoliad, maint safle neu adeilad</li> </ul>

## Dewis 6 – Dull Gwasgarog


Cadarnhaol	Negyddol
<ul style="list-style-type: none"> <li>Rhywfaint o eiddo ar gael ee Gwesty'r Lion</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ni fyddai'n darparu gwesty 4* sy'n llenwi bwlch yn y farchnad yn ogystal â chyfleusterau cysylltiedig</li> <li>Cyfyngiadau ar adeiladau unigol o ran maint, lleoliad, parcio etc.</li> <li>Ni fyddai'n bodloni meini prawf Croeso Cymru</li> </ul>

### Asedau Ffisegol a Mannau Cyhoeddus

- Rhan uchaf hanesyddol y dref gydag estyniad rhan isaf y dref ar wastadedd arfordirol
- Strydoedd a thesrau wedi tyfu o amgylch y Castell sy'n ychwanegu at olygfeydd a gwedd y toeau
- Mae rhai adeiladau yng nghanol y dref yn arddangos eu treftadaeth a'u tarddiad, eraill yn amharu arni gydag arwyddion ac estyniadau gwael
- Lle anodd i gerddwyr symud o fewn y Stryd Fawr
- Dim llawer o leoedd agored cyhoeddus ac wyneb gwael ar y llawr
- Mae gan y ffordd waelod amryw o adeiladau segur a doluriau llygad, mewn cyferbyniad i'r adeilad cyfnod Celf a Chrefft y Coleg a'r clwb a'r cwrs golff hanesyddol
- Symud o ran isaf i ran uchaf y dref yn broblem, yn enwedig i ymwelwyr tro cyntaf, gyda meysydd parcio ag arwyddion gwael gyda chyfle am well mynediad a lle oddi ar y ffordd waelod
- Golygfannau trawiadol ond nid yw'r llwybrau'n adnabyddus



Ffigur 4 – Dadansoddiad o Gymeriad



Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd OS; Chris Jones Regeneration

Cryfderau	Gwendidau
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Y lleoliad ar arfordir Bae Ceredigion yng nghysgod y mynyddoedd</li> <li>▪ Y lleoliad ar brif Reilffordd y Cambrian</li> <li>▪ Castell Harlech – Safle Treftadaeth y Byd UNESCO</li> <li>▪ Clwb Golff Brenhinol Dewi Sant – un o 100 cwrs golff gorau Prydain</li> <li>▪ Traeth helaeth sydd wedi ei ddynodi fel Gwarchodfa Natur Genedlaethol a Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig</li> <li>▪ Brand Eryri – adnabyddus ac yn denu amrywiaeth helaeth o ymwelwyr: treftadaeth, tirwedd, gweithgareddau – Mynyddoedd ac Arfordir Eryri</li> <li>▪ Buddsoddiad Cadw wedi gweld cynnydd yn yr ymwelwyr i'r Castell i 103,000 gyda gwell darpariaeth a phrofiad i ymwelwyr</li> <li>▪ Patrwm troellog ac ellydd serth y strydoedd cul a'r terasau yn ychwanegu at nawws o le</li> <li>▪ Ansawdd yr etifeddiaeth bensaernïol o ddechrau'r ugeinfed ganrif, a'r dreftadaeth gymdeithasol a diwylliannol sy'n gysylltiedig â hi</li> <li>▪ Cymuned weithgar sy'n cynnal gwasanaethau lleol ee canolfan hamdden, theatr</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Diffyg cysondeb mewn arwyddion ymlaen llaw a chyfeiriadol i ymwelwyr o'r A496 a'r A487</li> <li>▪ Agraiffadau cyntaf gwael yng ngwaelod y dref gyda safleoedd ac adeiladau gwag fel hen Westy Dewi Sant</li> <li>▪ Y dref wedi ei hollti'n ffigsegol oherwydd ei thopograffi</li> <li>▪ Pobl ar deithiau diwrnod yw'r ymwelwyr, yn aros llai na 2 awr</li> <li>▪ Diffyg llety gwesty o safon yn y dref</li> <li>▪ Diffyg hunaniaeth ystyrion i ganol y dref o ran defnydd ac amgylchedd</li> <li>▪ Cyd-destun deinameg y dref yn newid yn barhaus</li> <li>▪ Anodd cael lle parcio ac ymweliadau'n anodd i fysiau</li> <li>▪ Cyfradd lleoedd gwag o 16% gyda rhai adeiladau allweddol angen sylw</li> <li>▪ Gallai torri ar ddarpariaeth dysgu oedolion yng Ngholeg Harlech arwain at adael y prif adeilad yn wag a chael ei dan-ddefnyddio</li> </ul>
Cyfleoedd	Bygythiadau
<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Manteisio i'r eithaf ar safle Harlech o ran Cestyll a Muriau Tref y Brenin Edward yng Ngwynedd</li> <li>▪ Cais am statws Treftadaeth y Byd i'r ardaloedd llechi a'r atyniad i ymwelwyr yn sgil hynny</li> <li>▪ Hanes, ffurf a phensaernïaeth unigryw Wern Fawr ac adeilad y Theatr</li> <li>▪ Cysylltiadau â chyrchfannau allweddol eraill fel Portmeirion ac Abermaw</li> <li>▪ Cyfle i wireddu gwesty o safon sy'n newid Harlech o fod yn gyrchfan teithiau diwrnod i le i aros</li> <li>▪ Busnesau hen a newydd yng nghanol y dref a all ddatblygu safon ac enw da'r dref</li> <li>▪ Ardal Fenter Maes Awyr Llanbedr â'r potensial i ddod â swyddi gwerth uchel a manteision yn eu sgil i'r dref ee galw am lety, cadwyn gyflenwi</li> <li>▪ Cymdeithas gref sy'n awyddus i chwarae rhan yn nyfodol Harlech</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyrchfannau gerllaw sy'n datblygu eu hapêl a seilwaith</li> <li>▪ Canfyddiad na fuddsoddir yn Harlech</li> <li>▪ Hyfywedd a chynaliadwyedd atyniadau allweddol a gwasanaethau lleol</li> <li>▪ Mae'r cynnydd mewn darpariaeth gwestyau o dan reolaeth partion eraill</li> <li>▪ Yr hinsawdd ariannu yn newid gydag angen i'r sector cyhoeddus alluogi buddsoddiad sector preifat</li> <li>▪ Canolbwyntio'n gyfan gwbl ar yr angen am westy yn lle atebion i'r dref gyfan</li> </ul>

## Cryfderau



## Gwendidau



## Llwyddiannau hyd yma

Cyn symud at y strategaeth a'r syniadau ar gyfer Harlech, mae'n werth nodi'r gweithgaredd a'r buddsoddiad yn y dref hyd yma. Mae hyn yn cynnwys:

### Castell Harlech

- Adnewyddiad gwerth £5.9 miliwn i Gastell Harlech a gefnogwyd gan wasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru (Cadw) gyda chyllid o'r Prosiect Twristiaeth Treftadaeth. Mae'r gwelliannau wedi cynnwys gosod pont droed 'nofiol' gyda hen westy'r Harlech Castle yn gweld ei lawr gwaelod yn cael ei drawsnewyd yn ganolfan ymwelwyr modern gyda siop, caffi, toiledau ac ardal ddehongli. Cafodd y llawr cyntaf a'r ail lawr eu hadnewyddu'n bum fflat 4-seren.
- Mae'r prosiect wedi derbyn cydnabyddiaeth Gwobrau rhanbarthol a chenedlaethol Rheoli Adeiladu Awdurdodau Lleol Cymru yn ogystal ag ennill gwobr dreftadaeth George Gibynn y Sefydliad Peirianwyr Sifil.
- Mae lle chwarae wedi cael ei adnewyddu a'i wella gerllaw'r ganolfan ymwelwyr i'r gymuned leol ac ymwelwyr sydd wedi golygu tirlunio trwyadl gan gynnwys atgyweirio a gosod ffens a seddau newydd ac ail-gomisiynu'r prif offer chwarae.
- Mae cyfleuster adnoddau cymunedol wedi cael ei ddarparu gan Cadw yn yr hen ganolfan ymwelwyr.


### Cymorth Twristiaeth

- Mae Cymdeithas Twristiaeth Harlech wedi llwyddo i sicrhau grant o Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth Croeso Cymru ar gyfer gosodiadau a hyrwyddo creadigol gan gynnwys gosodiadau celf cymunedol, gorymdeithiau, cadair dweud straeon sy'n cysylltu'r traeth â'r Safle Treftadaeth y Byd a'r dref, yn ogystal â phontio Blwyddyn y Chwedlau yn 2017 a Blwyddyn y Môr 2018.
- Mae mudiadau cymunedol lleol gyda chymorth Cyngor Gwynedd yn datblygu ceisiadau am gyllid ar gyfer y Rhaglen Lleoedd Arbennig trwy gyllid Treftadaeth y Loteri a Chynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth Croeso Cymru, gan gynnwys gwella lle parcio i fysiau yn Bron y Graig Uchaf, gwelliannau i doiledau yn Bron y Graig Isaf, arwyddion ymwelwyr a rhaglen dreftaeth/diwylliant beilot i'r dref.



© Hawlfraint y Goron (2017) Cadw, Llywodraeth Cymru





# THEMÂU A SYNIADAU

## 3. Themâu a Syniadau

### Themâu

Mae'r canlynol yn amlinellu'r gyfres o themâu straegol ac amcanion allweddol y cynllun strategol hwn:



#### Rhoi Harlech ar y Map

- Dangos Harlech fel lle o'r radd flaenaf i ymweld, buddsoddi a byw ynddo



#### Manteisio i'r Eithaf ar Asedau Lleol

- Canolbwyntio gweithgaredd ar asedau sy'n bod eisoes i sicrhau cynaliadwyedd yn y dyfodol
- Helpu adeiladu cynhwysedd y gymuned



#### Cyhoeddi Harlech

- Amlygu Hunaniaeth, Naws am Le a Chyfeirio at Atyniadau Allweddol



#### Gwesty i Harlech

- Gwireddu llety ychwanegol sy'n ategu a chyflwyno Harlech fel canolfan i aros a chrwydro ohoni



#### Crwydro Harlech

- Creu Profiad sy'n Cynyddu Arhosiad, Mwynhad a Gweithgaredd



#### Menter yn Harlech

- Sicrhau bod y buddsoddiad ym Maes Awyr Llanbedr yn creu cyfleoedd gwaith lleol a gweithgaredd cefnogol
- Darparu hyfforddiant a chymorth i fusnesau a mudiadau lleol ac i bobl sy'n darparu gwasanaethau yn y dref



#### Adfywio'r Stryd Fawr

- Gwella Cymeriad, Amrywiaeth ac Ansawdd yr Amgylchedd a'r Cynnig

## Syniadau



Mae'r tudalennau canlynol yn awgrymu cyfres o syniadau ac atebion o fewn yr amrywiol themâu strategol.

Nodir camau allweddol ar gyfer symud ymlaen yn adran Gweledigaeth a Blaenoriaethau yr adroddiad hwn.

## Rhoi Harlech ar y Map

- **Ffyrdd Allweddol i Harlech**
  - Defnyddio dull 'Ffordd Cymru' Croeso Cymru
  - Taith y Cambrian: cyhoeddi yn Llanelltyd (A470), Maentwrog a Penrhyndeudraeth (A487)
  - Defnyddio cynllun cerrig Ogam i gyhoeddi a chadarnhau
- **Dynesu at Harlech**
  - Golygfan Llanfair: archwilio'r potensial am gilfan ddiogel a chyfle i dynnu llun
- **Harlech - Hunaniaeth**
  - Cyfarwyddo ymwelwyr at wefannau a chyfryngau digidol presennol fel gwefannau Castell Harlech a Cadw
  - Datblygu hunaniaeth cyrchfan ar bob deunydd marchnata a dehongli
  - Cysylltu â chyrchfannau Abermaw a Porthmadog gerllaw
- **Cyhoeddiad allanol a mewnol i'r dref**
- **Ei ddefnyddio mewn pwyntiau allweddol yn y dref**
- **Marchnata: y we, cyfryngau cymdeithasol, taflenni, mapiau, ffedogau, crysau t, llysgenhadon, llwybr 'H' etc**
- **Marchnata'r Gyrchfan**
  - Adeiladu ar yr hunaniaeth gyda'r gymdeithas dwristiaeth leol, partneriaeth cyrchfan Gwynedd, Cadw a Croeso Cymru – cyfleoedd traws-farchnata
  - Targedu'r farchnad dramor yn benodol – defnyddio statws Treftadaeth y Byd UNESCO fel prif bwyslais – hyrwyddo ar y cyd â chestyll eraill Cadw a godwyd gan Edward I
- **Cymdeithas Twristiaeth Harlech**
  - Parhau i gyfeirio cyfleoedd posibl am gyllid grant i grwpiau cymunedol fel y Gymdeithas Twristiaeth

- Datblygu pellach ar wefan Croeso Harlech i gynnwys dolen gwe-gamera i olygfeydd enwog Harlech a gwasanaeth archebu uniongyrchol



- **App Harlech i gysylltu â WiFi am ddim y dref**
  - Cysylltu hwn â chodau QR trwy ddefnyddio “ibeacons” mewn mannau allweddol o ddi-ddordeb – animeiddio gweithgareddau a straeon, ee gwneuthurwyr lleol, y Mabinogion, adeiladu Castell Harlech
- **Cynllun Llysgenhadon Harlech**
  - Seiliedig ar ‘Welcome Host’ ond wedi’i addasu ar gyfer nodweddion lleol
- **Digwyddiadau a Gweithgareddau**
  - Datblygu ymhellach raglen o ddigwyddiadau rhyngwladol/o safon uchel, yn enwedig yng nghyfnod y ‘tymor ysgwydd’. I gynnwys:
    - Crwydro – y castell i’r môr
    - Cerddoriaeth – Thema ‘Gwŷr Harlech’ wedi ei hailddechongli i gynulleidfa fodern – perfformiadau côr a churiadau electronig
    - Datblygu digwyddiad Mabinogion
    - Gŵyl fwyd traddodiadol drwy’r dref
    - Gŵyl/Drysau Agored Celf a Chrefft – artistiaid, awduron, crochenwyr, gwehyddwyr, gweithwyr coed
  - Teithiau tywys a hunan-dywys – tirwedd a bywyd gwylt – y traeth a’r arfordir, daeareg a choetiroedd





## Cyhoeddi Harlech

- **Pyrth Mewnol y Dref**
  - A496 a chyffordd Ffordd Isaf
  - B4573 - Stryd Fawr – golygfa o'r castell
  - A496 – cyhoeddi'r clwb golff, canolfan hamdden, traeth etc
  - Creu canolbwynt a gwella'r coridor
- **Gwybodaeth ar arwyddion yn y dref**
  - Gwella arwyddion ymlaen llaw a chyfeiriadol o'r A496 a'r B4573
  - Atyniadau twristiaeth – gwella'r arwyddion ymwelwyr gwyn ar frown
  - Arwyddion ymlaen llaw ac arwyddion ailadrodd i fysiau at fannau gollwng a chodi teithwyr a mannau aros
  - Arwyddion digwyddiadau deinamig
- **Creu cyfres o arwyddion**
  - Cyfateb â thema Croeso Cymru o ffontiau ac ysgrifen arwyddion cerrig Ogam
  - Ei wneud yn unigryw i Harlech
  - Defnyddio'r hunaniaeth ac adeiladu arno




Nodyn: Cysyniadau Darluniadol





Noder: Cynsnyiad Darluniadol



## Crwydro Harlech

- **Rheoli Bysiau**
  - Man gollwng/codi teithwyr, lle aros – cyfleusterau i yrwyr
  - “Pasport” i deithwyr bws – map, tocynnau, marchnata
- **Bws Hoppa – Cynllun Pasport**
  - Archwilio ffyrdd o gyfeirio'r gwasanaeth bws presennol i bwyntiau codi allweddol yn y meysydd parcio isaf
  - Arhosiad hir yng ngwaelod y dref – ee £5 am y diwrnod
  - Parcio – teithio – map a thocynnau i'r dref trwy ddull aml-bartneriaeth
- **Gorsaf Drenau**
  - Hyrwyddo mwy o ymwelwyr â thrên - Birmingham 4 awr i ffwrdd
  - Cysylltu â chyrchfannau gwyliau eraill
  - Cyswllt Rheilffordd y Cambrian â Llwybr Arfordir Cymru
- **Golygfan**
  - Clirio, rheoli ac arwyddion
  - Cynnwys tag Realiti Estynedig
- **Hyrwyddo Llecynnau Gwyrdd**
  - Caeau Chwarae'r Brenin Siôr V
    - Cefnogi Grŵp Parciau â syniadau ee map mawr
  - Parc Bron y Graig
  - Arwyddion/porth /meinciau unswydd ar ei gyfer
  - Safle coetir uwchlaw Coleg Harlech
    - Dosbarthiadau lles awyr agored
    - Celf cymunedol, hamogau, lle ymlacio, syniad am bebyll yurt
- **Teithiau a Chylchdeithiau'r Dref**
  - Taith gerdded 10,000 o gamau – ffisegol a seiliedig ar app
  - Coedydd yr Ymddiriedolaeth Coetiroedd a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol
  - Themâu - treftadaeth, ffotograffiaeth, natur

## Y traeth


- Gwella'r mynediad llwybr pren
- Archwilio'r potensial am gaffi/canolfan tymhorol gerllaw'r toiledau







## Adfywio'r Stryd Fawr







- **Y Stryd Fawr – Lle agored, Treulio amser, Bywiogi**
  - Trin y gerbyddfordd o'r pyrth mewnol – lle wedi'i rannu – blaenoriaeth i gerddwyr
  - Cadw lle parcio cyfnod-byr ar y stryd
  - Ymestyn y lle cerdded i greu lle canolog
  - Deunydd palmantu syml naturiol
  - Dodrefn stryd – sy'n gyson ac yn cydweddu â chymeriad y dref
- **Targedu Adeiladau Allweddol**
  - Datblygu canllawiau dylunio ar gyfer tu blaen adeiladau masnachol amlwg ar y stryd
  - Treialu cynllun dros dro gyda landlordiaid i gynnig prydlesi tymor byr ar gyfer celf a chreffft, bwyd, cynnyrch a masnachu arbrofol



- Parhau'r Meini Ogam o amgylch ganol y dref – cysylltu coetir, llwybrau, teithiau
- Yr Hen Lyfrgell – canolfan gymunedol
- Pwynt gwybodaeth i ymwelwyr yn y dref – trafod presenoldeb gyda Cadw yng nghanolfan ymwelwyr y Castell
- Sicrhau bod 3G/4G a band eang yn addas i fusnes
  - Sicrhau bod Band Eang Cyflym lawn Cymru yn dod i ganol y dref
  - Cynllun Wi-Fi i ganol y dref
  - Datblygu system Wi-Fi i ganol y dref sy'n darparu mynediad agored trwy gofrestru ac yn cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth arall am ganol y dref
- Rheoli parcio ar-stryd – amserau, lleoliad
- Rheoli parcio oddiar y stryd: Maes parcio Bron Y Graig, lle gollwng/codi teithwyr i fysiau, arwyddion, pwyntiau gwybodaeth, llwybrau app/QR
- Goleuadau: adeiladau allweddol, cerrig brig
- Datblygu 'Ymgyrch Leol Harlech' wedi'i hanelu at y gymuned leol i gefnogi siopa, bwyta, prynu, mwynhau ... yn lleol
  - Cyrff lleol a phartneriaid i gyd-ddarparu ar-lein a chyfres draddodiadol o ddeunydd hyrwyddo gan gynnwys:
  - Llawlyfr Prynu'n Lleol ac ymgyrch poster
  - Digwyddiadau blasu, hyrwyddo
  - Dal i ddefnyddio Facebook a chyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo ar y we a ffilmiau hyrwyddo byr
  - Archwilio ymarferoldeb cerdyn teyrngarwch i fusnesau lleol



## Manteisio i'r eithaf ar Asedau Lleol

- **Llyfrgell Harlech – Canolfan Gymunedol**
  - Cysylltu gweithgaredd canol y dref i gefnogi defnydd o'r ganolfan gan amrywiaeth helaeth o ddefnyddwyr – y gymuned, busnes
  - Darparu pwynt Wi-Fi am ddim
  - Swyddfa/lle i weithio ar y cyd
  - Lle cyfarfod/cymunol/cegin sy'n welladwy o'r stryd
  - Gerllaw maes parcio Bron y Graig – cyfarfod a chyfarch – pwynt gwybodaeth i ymwelwyr
  
- **Theatr Ardudwy**
  - Cysylltu'n uniongyrchol â Wern Fawr
  - Nodweddiadol o'r 1970au cynnar, gyda photensial nas gwireddwyd eto
  - Sinema ddigidol gyfoes wedi cynyddu niferoedd y cynulleidfaoedd
  - Lle perfformio rhanbarthol
  - Cyfleuster tywydd gwlyb
  - Acwsteg ryfeddol a golygfeydd gwych
  - Mae angen buddsoddi sylweddol yn sgil ei gyflwr presennol
  - Angen mwy o weithgaredd ar loriau a welir o'r ffordd
  - Lle i arallgyferio i swyddogaethau ehangach na theatr a sinema yn unig
  - Potensial ar gyfer cyfleusterau cynhadledd (digidol)



- **Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy**
  - Menter gymdeithasol gan y gymuned
  - Pwll nofio – wal ddringo – caffi
  - Adnodd i ysgolion lleol gynnig gwersi nofio i gymuned arfordirol
  - Cyfleuster poblogaidd ar dywydd gwlyb
  - Dibynnu ar gyflenwad cyfyngedig o wirfoddolwyr
  - Dim adnoddau i ddatblygu cyllid grant pellach ar gyfer gwelliannau
  - Angen gwaith sylweddol i wella apêl i ymwelwyr – ystafelloedd newid a ffenestri
  - Potensial am baneli photo-voltaic ar y to
  - Adeiladu cynigion aelodaeth gorfforaethol gyda gwestyau a meysydd carafanau
  - Datblygu'r marchnata i ganolfannau addysg awyr agored, teithiau cerdded tywys, digwyddiadau blasu
  - Datblygu 'pasport' neu 'Gerdyn Harlech' i drigolion ac ymwelwyr sy'n dod ag atyniadau eraill ynghyd, i gynhyrchu tanysgrifiadau ac incwm rheolaidd
- **Las Ynys Fawr**
  - Cartref Ellis Wynne – 'Y Bardd Cwsg'
  - 1 filltir i'r gogledd o Harlech ond rhan o gynnig diwylliannol cyfoethog yr ardal
  - Teithiau i ymwelwyr a lleoliad i ddigwyddiadau bach
  - Cryfhau'r cysylltiad â Harlech
  - Hyrwyddo'r Gymraeg fel elfen unigryw o'r cynnig i ymwelwyr
- **Cydgysylltu Cymunedol yn Harlech**
  - Grwpiau cymunedol i chwilio am ffyrdd o gyd-gysylltu, galluogi, marchnata ar y cyd, cyflawni prosiectau sy'n arwain at integreiddio. Gallai rôl arfaethedig y rheolwr prosiectau yn y prosiect Lleoedd Gwych gyflawni'r rôl hon
  - Datblygu 'Cerdyn Harlech' – hyrwyddo, rheoli a dosbarthu incwm ledled y gymuned

- Datblygu cynhyrchion/ymgyrchoedd strategol ar draws y celfyddydau, hamdden, y gymuned, treftadaeth



## Gwesty i Harlech

### Gwesty


- Cofleidio lleoliad Harlech a'i naws o le ac sy'n cynnig profiad penodol ac unigryw
- Cael ei weld fel gwesty cyrchfan i gyfran helaeth o ymwelwyr gan gynnwys:
  - Teuluoedd a chyplau sy'n crwydro'r ardal – cerddwyr, cestyll a threftadaeth
  - Pobl ar deithiau gwyliau bws
  - Gwyliau golff a thwrnameintiau
  - Marchnad busnes a chynadleddau
- Lle ar gyfer iechyd a lles a mwynhau harddwch naturiol yr ardal
- Dangos y gorau o fwyd a lletygarwch y dref a'r ardal
- Tua 50-70 o lofftydd

### Lleoliad a Awgrymir

- Yr astudiaeth wedi adolygu nifer o safleoedd
- Angen edrych ar holl adeiladwaith hen safle Gwesty Dewi Sant a Choleg Harlech ar goridor yr A496 gyda'r amcanion canlynol:
  - Rhoi ateb integredig
  - Lleoliad sy'n gwasanaethau'r clwb golff a'r dref
  - Cyswllt trwy'r coetir i fyny i ganol y dref
  - Cyfleoedd sgiliau a hyfforddi
  - Cadw'r Theatr ar gyfer gweithgareddau atodol







## Menter yn Harlech

### Maes Awyr Llanbedr

- Swyddi gwerth uchel mewn Awyrfod a thechnoleg y gofod
- Angen am lety yn y dref yn y dyfodol yn gysylltiedig ag 'ymgyrchoedd' profi a gwerthuso
- Angen datblygu cadwyni cyflenwi byr gyda busnesau presennol a newydd fel gwestyau, bwyd a diod, masnachwyr lleol a chrefftau
- Cyfleoedd am fand eang cyflym iawn a darpariaeth symudol 4G
- Cydweithio â Phartneriaeth Academaidd Gofod Cymru (WASP) gyda phartneriaid ym mhrifysgolion Aberystwyth and Bangor – anghenion llety
- Potensial am fwy o le ymchwil a datblygu – yn y dref?
- Y Porth Gofod arfaethedig â photensial yn y dyfodol i ychwanegu at y cyfleuster a buddion i'r dref

### Tref Arloesol

- Cynllun Wi-fi y dref: pwyntiau mynediad di-wifr
- Cysylltiedig â gwefan 'Croeso Harlech', gwahodd gwybodaeth e-bost, adeiladu cronfa ddata a marchnata digwyddiadau, ymgyrchoedd a chymelliannau
- Cysylltiedig ag app integredig ar gyfer y dref a chyfleoedd i ddatblygu realiti estynedig ar gyfer safleoedd treftadaeth a gwella gwerth addysgiadol i ysgolion





© Hawlfraint y Goron (2017) Llywodraeth Cymru

### Ail-fywiogi'r Dref

- Ystyried ymarferoldeb cynllun Ynni Cymunedol
- Defnyddio llyn bychan – hydro sy'n gysylltiedig â batri wrth gefn
- Cyswllt â gwasanaeth bws tref 'hoppa' LPG

### Hyfforddiant a Chymorth

- Hyfforddiant 'global host': ar draws y dref a theimlad o le: llysgenhadon i'r dref – cyswllt â chredydau amser – arwain ymwelwyr etc
- Defnyddio canolfan adnoddau yn yr hen ganolfan ymwelwyr yn y Castell fel cyfleuster hyfforddi cymunedol
- Cyfleoedd band eang cyflym iawn: Wi-Fi, mwy o bresenoldeb ar y we a marchnata cyfochrog, cyfathrebu ar-lein/cyfryngau cymdeithasol, archebu cyflymach ar-lein a systemau rheoli cysylltiadau â chwsmeriaid
- Gwesty newydd: angen edrych ar weithwyr sydd ar gael, recriwtio, prentisiaethau arlwyo/lletygarwch cysylltiedig ag Addysg Bellach yn Nolgellau a cholegau eraill y gogledd
- Digwyddiad cyfarfod prynwr/cyflenwr – cysylltiedig â Maes Awyr Llanbedr





# YMGYNGHORI

## 4. Ymgynghori – Beth Ddywedodd Pobl

Fel rhan o broses yr astudiaeth ac wrth gwblhau'r ymchwil a'r cyd-drafod cychwynnol â rhanddeiliaid, rhannwyd syniadau a chynigion gyda'r gymunedol leol am sylw arnynt.

Defnyddiwyd y dulliau canlynol ar gyfer cyhoedduswydd i'r ymgynghori:

- Poster cyhoedduswydd yn y dref
- Hysbysu ag e-bost trwy rwydwaith Harlech a'r Cylch
- Erthygl yn y Cambrian News
- Tudalen bwrrpasol ar gyfer y prosiect ar wefan Cyngor Gwynedd
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithasol Cyngor Gwynedd
- Cyfrifon cyfryngau cymdeithas Chris Jones Regeneration

Roedd cyfleoedd i gymryd rhan yn cynnwys:

- Digwyddiad ymgynghori cymunedol agored a gynhaliwyd ar 26 Gorffennaf yn y Neuadd Goffa, Twtil, Harlech a ddenodd **155** o bobl
- Fe wnaeth poster cyhoedduswydd i'r digwyddiad arwain at **12** o bobl yn e-bostio'r tîm ymgynghori gyda gwahanol faterion a syniadau
- Darparwyd arolwg dwyieithog ar-lein ac mewn fersiynau print gyda **145** o bobl yn defnyddio'r ffurf hwn o adborth


Daeth BBC Cymru Wales hefyd i'r digwyddiad, gyda Newyddion S4C yn cyflwyno darn ar y dref a'r astudiaeth, yn ogystal â Radio Cymru.

Mae'r siartiau canlynol yn rhoi crynodeb o'r prif sylwadau a wnaeth aelodau o'r cyhoedd a'r grwpiau rhanddeiliaid trwy'r arolwg ac wyneb yn wyneb.

Mae Ffigur 5 yn dangos mai'r brif flaenoriaeth i'r gymuned yw mynd i'r afael â dirywiad Gwesty Dewi Sant gyda diffyg llety gwesty o'r ansawdd a'r apêl iawn yn her gysylltiedig i'r dref. Ymysg clwstwr o faterion eilaidd, ond sy'n dal yn bwysig, mae hyfywedd a chynaliadwyedd

gwasanaethau lleol, cyflwr canol y dref ac yn enwedig diffyg cyflogaeth yn y dref a'r ardal. Mae'r themâu trawsbynciol nad yw'r dref yn cyrraedd ei photensial o ran twristiaeth a chanfyddiad fod diffyg buddsoddiad yn gysylltiedig â'r prif faterion a'r heriau.

Ffigur 5 – Prif Faterion a Heriau



Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein n=145





**GWNEUD I BETHAU  
DDIGWYDD  
YN HARLECH**



**MAKING IT  
HAPPEN IN  
HARLECH**

**Beth yw'r cyd-weledigaeth  
ar gyfer Harlech?**

Yd'i'r cynigion yn ymateb i  
ofynion lleol ac ymwelwyr?  
Yd'i'r cynigion yn realistig ac  
ymarferol?

**Beth yw'ch blaenoriaethau  
chi ar gyfer Harlech?**

**What's the joint vision  
for Harlech?**

Do proposals meet local  
needs and visitors?  
Are the proposals realistic  
and deliverable?

**What are your priorities  
for Harlech?**

**CYFLE I DWEUDD  
EICH DWEUD!**

**Dydd Mercher  
26ain Gorffennaf  
11yb - 7yh  
Neuadd Goffa, Twll**

**HAVE YOUR SAY!**

**Wednesday  
26<sup>th</sup> July  
11am - 7pm  
Harlech Memorial Hall, Twll**

I gariod newy, cyffwrth i  
chrise@twll.gov.wales  
Ffôn: 01173 800666

To find out more contact  
chrise@twll.gov.wales  
Tel: 01173 800666





Ffigur 8 – Dyfodol Harlech



Ffynhonnell: Arolwg Ar-lein=145

Mae Ffigur 8 uchod yn dangos lle mae pobl yn gweld Harlech yn y dyfodol gyda rhywfaint o fynegiant cadarnhaol y bydd y dref yn ffynnu, yn addawol, cyffrous a byrlymus. Mae ymatebwyr eraill yn llai gobeithiol gyda geiriau fel llwm, disymud, dirywio, ymysg eraill. Yn gyffredinol mae teimlad o optimistaeth os cymerir camau penodol a'r tref yn cyflawni ei photensial.

#### Sylwadau Cyffredinol

Cafodd aelodau'r cyhoedd gyfle hefyd i roi sylwadau agored ar ddyfodol y dref. Mae'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt wedi eu crynhoi o dan y penawdau canlynol.

#### *Gwell Hyrwyddo a Chyhoeddusrwydd*

- Cyfathrebu cydgysylltiedig ymysg sefydliadau ar ymwybyddiaeth o weithgareddau, digwyddiadau
- Hyrwyddo amwynderau a chyfleusterau lleol
- Defnyddio'r cynnig i gerddwyr, llwybrau beicio oddi ar y ffordd
- Agor canolfan wybodaeth i ymwelwyr mewn siop wag

#### *Y Stryd Fawr*

- Targedu tafarn y Lion, gwella eiddo
- Rheoli parcio a gwella'r Stryd Fawr – marchnad wythnosol
- Ymgyrch prynu'n lleol, gwella'r cynnig o fwyd a diod (dydd a gyda'r nos)
- Edrych ar brydlesau byr gyda landlordiaid
- Cynnwys Eglwys ym mhrofiad y Stryd Fawr
- Sefydlu rhwydwaith busnes

#### *Cyrchfan*

- Dymchwel gwesty Dewi Sant a'r bloc preswyl
- Gwesty yw'r allwedd i weithgaredd
- Gwella mynediad i'r traeth a'r cyfleusterau yno
- Parcio a theithio neu wasanaeth bws hoppa yn syniad da
- Rheoli parcio – ceir, bysiau, taliadau, rhan o'r profiad
- Gwella cysylltiadau

#### *Asedau Cymunedol*

- Lle i grwpiau cymunedol fel Ti a Fi ymysg eraill
- Helpu cydlyniant cymunedol a'r defnydd o adeiladau allweddol

#### *Llwybrau a Chysylltiadau*

- Rheoli'r Llwybr Geifr (coetir) sy'n eiddo i Goleg Harlech a chreu llwybrau a lleoedd i dreulio amser ynddynt


#### *Cyflogaeth*

- Cynnwys pobl ifanc mewn cynhwysiant digidol a thwristiaeth/hamdden
- Cyrsiau yn y celfyddydau, diwydiannau creadigol
- Cadwyni cyflenwi a chyfleoedd o Faes Awyr Llanbedr




# GWELEDIGAETH A BLAENORIAETHAU

## 5. Ein Gweledigaeth a'n Blaenoriaethau



**Gweledigaeth:** Harlech – o'r môr i'r castell i'r mynyddoedd – lle mae'r tirlun, ei dreftadaeth a'i ddiwylliant yn helpu grymuso cymdeithas a hyrwyddo menter



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 2011 100023387

## Blaenoriaethau Strategol

Wrth ddatblygu set o flaenoriaethau strategol a chanllawiau ar gyfer buddsoddi a chysoni gweithgaredd yn y dyfodol, mae proses yr astudiaeth wedi asesu syniadau a chynigion ar sail set o feini prawf sy'n crynhoi'r rhestr hir yn rhestr o brosiectau i ganolbwyntio arnynt.

### *Sgôr Angen Cychwynnol*

Mae hyn yn ymwneud â'r cwestiwn a gafodd y cynnig ei nodi fel rhan o'r ymchwil cychwynnol. Gwelir hyn trwy bolisi presennol, astudiaethau blaenorol, ystadegau llesiant neu trwy asesiad ffisegol a chyd-drafod â rhanddeiliaid.

### *Sgôr Ymgynghori Cymunedol*

Mae dadansoddi ymatebion i ymgynghori cymunedol yn helpu deall yr angen a graddio syniadau a chynigion.

### *Sgôr Cynaliadwyedd*

Roedd y diffiniad o gynaliadwyedd yn canolbwyntio ar ddatblygiad cynaliadwy ac a ellir datblygu a chyflawni'r cynigion naill ai ag effaith bach iawn neu effaith dan reolaeth, ar adnoddau ee defnyddio adeiladau sy'n bod eisoes, hyrwyddo trafndiaeth gyhoeddus neu ddefnyddio ddeunyddiad adnewyddadwy.

### *Sgôr Gwerth am Arian*

Dylid nodi na ddatblygwyd amcangyfrifon costau oherwydd cwmpas strategol yr astudiaeth. Mae gwerth am arian wedi cael ei asesu felly ar sail profiad o brosiectau blaenorol a'r amrediad tebygol o gostau. Ffurfiwyd barn felly ar gost-ffeithiolrwydd mewnbyn o adnoddau a'r canlyniadau a ragwelwyd.

### *Sgôr Ymarferoldeb Cyflawni*

Fel ffactor allweddol gydag unrhyw brosiect, mae'r sgôr yma'n asesu risgiau y gellir eu hadnabod, perchnogaeth tir neu weithgaredd, cyrff cyflawni tebygol, gwybodaeth o'r prosesau presennol ac unrhyw ffactorau allanol a allai lesteirio'r gwaith o gyflawni.

### *Sgôr Effaith*

Adlewyrchiad o'r graddau y gallai'r gweithgaredd gynhyrchu effeithiau gweladwy o fewn y dref a'r gymuned.

## Tymor Byr

<b>Cynnig Strategol</b>	<b>Datblygu Twristiaeth Lleol</b>				
<b>Thema</b>	<b>Rhoi Harlech ar y Map</b>				
<b>Disgrifiad</b>	<p>Parhau'r gweithio ar y cyd rhwng mudiadau cymunedol lleol fel Cymdeithas Twristiaeth Harlech, cyfeirio cyfleoedd am adnoddau a chyllid gan adeiladu ar eu gweithgaredd grantiau. Y gweithgaredd i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Datblygu eu hunaniaeth leol trwy wybodaeth rheoli ymwelwyr ar-lein a ffisegol o fewn Harlech sy'n ategu'r lleoliad Safle Treftadaeth y Byd.</li> <li>▪ Gweithio gyda phartneriaid strategol fel Cadw, datblygu gwybodaeth i ymwelwyr trwy lawlyfrau am y dref, app treftadaeth ffôn a mathau eraill o ddehongli.</li> <li>▪ Cefnogi gweithgaredd digwyddiadau a gynllunir trwy gymorth TPIF trwy'r Flwyddyn Chwedlau a'r Môr.</li> <li>▪ Helpu trefnu a chynnal teithiau ymweld i newyddiadurwyr teithio fel rhan o'r ymgyrch farchnata a gweithgareddau codi ymwybyddiaeth eraill.</li> <li>▪ Gwella'r ddarpariaeth o doiledau o fewn maes parcio Bron y Graig Isaf.</li> <li>▪ Trafod darparu Canolfan Wybodaeth i Ymwelwyr fel cynllun peilot o fewn Canolfan Ymwelwyr Castell Harlech.</li> <li>▪ Cefnogi prosiect cymunedol tair-blynedd sy'n codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth trwy ddehongli lleol, prosiectau hanes llafar a'r berthynas rhwng y dref a'r ardal a diwydiannau gwledig. Y gweithgareddau i gynnwys teithiau hunan-dywysedig, gweithdai, defnydd o gyfryngau cymdeithasol, arddangosiadau dros dro mewn siopau gwag, digwyddiadau allweddol a mân weithiau cyfalaf.</li> </ul>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Cymdeithas Twristiaeth Harlech, Cyngor Gwynedd (Twristiaeth), Cadw				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cronfa Arloesi Cynhyrchion Twristiaeth (Croeso Cymru) – dyfarnwyd</li> <li>▪ Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth (Croeso Cymru) – disgwyl canlyniad cam 2</li> <li>▪ Cynllun Lle Arbennig (Cronfa Dreftadaeth y Loteri) – disgwyl canlyniad cam 2</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	<p>Talwyd costau gweithgareddau digwyddiadau gan TPIF Croeso Cymru  Dal i dderbyn cymorth cyfeirio a swyddogion gan Gyngor Gwynedd (Twristiaeth)  Talwyd costau canolfan wybodaeth i ymwelwyr gan staff presennol Cadw a chostau rhedeg; mân gostau cyfalaf ar gyfer silffoedd, arwyddion, etc</p>				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>

<b>Cynnig Strategol</b>	<b>Creu'r Cysylltiadau</b>				
<b>Thema</b>	<b>Cyhoeddi Harlech/Crwydro Harlech</b>				
<b>Disgrifiad</b>	<p>Trwy bartneriaeth aml-asiantaeth mae angen cyhoeddi Harlech trwy drafnidiaeth, parcio ac arwyddion i drigolion lleol ac ymwelwyr fel bod y dref yn teimlo'i bod wedi'i chysylltu, yn ffisegol a thrwy farchnata. Y gweithgaredd i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ymgyrch gydgysylltiedig i hyrwyddo rheilffordd y Cambrian ac amlygu Harlech a chyrchfannau cyfagos ar y lein ee Abermaw a Phorthmadog. Ystyried defnyddio brand posteri rheilffyrdd yr 1930au, a'r berthynas â'r safle Treftadaeth y Byd ac atyniadau eraill fel Llwybr Arfordir Cymru.</li> <li>▪ Gan ddysgu oddi wrth wasanaeth bws "Hoppa" blaenorol Cadw, deall teithiau bws presennol, lleoliadau parcio (i geir a bysiau), atyniadau allweddol ac ymchwilio i wel a ellir addasu teithiau ac amserlenni ar gyfer trigolion lleol ac ymwelwyr. Partneriaid strategol i weithio gyda mudiadau cymunedol a'r sector preifat ar ddull partneriaethol. Byddai angen darparu arwyddion a gwybodaeth os yw'r cynigion yn ddichonadwy.</li> <li>▪ Gwella darpariaeth parcio bysiau ym maes parcio Bron y Graig yn rhan uchaf Harlech.</li> <li>▪ Cyfres gynhwysfawr o arwyddion i ymwelwyr sy'n cyhoeddi'r dref o'r gogledd a'r de gan ategu dull Ffordd Cymru Croeso Cymru, i gynnwys arwyddion porth/gwybodaeth, cyfeirio ac ailadrodd.</li> <li>▪ Datblygu egwyddorion arwyddion Meini Ogam Ffordd Cymru, gan eu gwneud yn unigryw i Harlech, yn dathlu treftadaeth ond gyda theimlad cyfoes. Partneriaid strategol i ddatblygu syniadau am ddyluniadau a chaffael y cam nesaf o ddylunio.</li> <li>▪ Datblygu cynllun ar gyfer llwybrau a chylchdeithiau tref sy'n cysylltu rhannau isaf ac uchaf y dref, caffael a datblygu dyluniadau.</li> </ul>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Arriva, Cyngor Gwynedd (Uned Trafnidiaeth), Cadw a'r sector preifat				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Lle parcio i fysiau – Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth (Croeso Cymru) – cam 2 ar y gweill</li> <li>▪ Eitemau eraill - Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth (Croeso Cymru)</li> <li>▪ Cronfa Trafnidiaeth Lleol – Llywodraeth Cymru</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Dull ariannu aml-sector ar gyfer y pecyn trenau a bysiau – Arriva, Cadw, Cyngor Gwynedd a'r sector preifat</li> </ul>				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>

## Tymor Canolig

Cynnig Strategol	Y Stryd Fawr
Thema	Adfywio'r Stryd Fawr
<b>Disgrifiad</b>	<p>Argymhellir dull integredig o wella Stryd Fawr Harlech os yw am fod yn hyfyw ac apelgar i drigolion lleol ac ymwelwyr. Mae'n bwysig ei fod yn ffurfio rhan o brofiad safle Treftadaeth y Byd ac yn cyflwyno'i hun fel lle ac iddo'i naws ystyrion ei hun trwy ei amgylchedd ffisegol a'i gynhyrchion i ymwelwyr. Mae gweithgaredd wedi'i rannu'n ddwy agwedd, y ffisegol a datblygu busnes:</p> <p><b>Ffisegol</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw i baratoi briff dylunio ar y cyd ar gyfer ardal y Stryd Fawr o'r dref gyda sefydliadau treftadaeth, amgylchedd a thwristiaeth lleol i ddatblygu syniadau dylunio penodol ar y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Pyrth mewnol i'r Stryd Fawr a Safle Treftadaeth y Byd.</li> <li>○ Perthynas llwybrau a'i gilydd, cyfleoedd dehongli a sut y gallant ymestyn arhosiad, addysg a mwynhad o Harlech.</li> <li>○ Cynnal astudiaeth parcio er mwyn deall yr anghenion presennol ar-stryd ac oddi ar y stryd, a fyddai'n arwain at gynnig ffyrdd o reoli parcio ar-stryd ac adnabod ffyrdd o gynyddu gofod i gerddwyr.</li> <li>○ Datblygu cynllun manwl i drin y gerbyddfordd a phalmentydd gydag amcan o greu ardal â blaenoriaeth i gerddwyr. Ystyried dodrefn stryd a goleuadau fel rhan o'r cynllun. Caffael ymgynghorydd dylunio a'i ddefnyddio i sicrhau grantiau cyfalaf.</li> <li>○ Targedu adeiladau allweddol a chynhyrchu canllawiau dylunio ar ffryntiadau masnachol sy'n arwyddocaol yn y strydlun, o bosibl trwy Bartneriaeth Cynllun Tref.</li> <li>○ Gweithio gyda'r Hen Lyfrgell wrth iddynt ddatblygu eu cais loteri Pawb a'i Le ar gyfer eu Canolbwynt Cymunedol ar y Stryd Fawr.</li> </ul> </li> </ul> <p><b>Datblygu Busnes</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Chwilio am ffyrdd o ddod â busnesau'r dref (yn ogystal â busnesau twristiaeth) at ei gilydd i ffurfio rhwydwaith a all drafod problemau, anghenion, hyfforddi, hyrwyddo, ffyrdd o ddefnyddio adeiladau gwag dros dro etc; darparu hyfforddiant a chymorth: digidol, naws o le a nodweddion lleol unigryw, bwyd, etc. <ul style="list-style-type: none"> <li>○ Cynllun defnyddio adeiladau dros dro gyda landlordiaid i gynnig prydlesu tymor byr ar gyfer celf a chrefft, bwyd, cynnyrch a masnachu arbrol.</li> <li>○ Sicrhau bod 3G/4G a Band Eang yn addas i fusnesau.</li> <li>○ Ymchwilio i gynllun Wi-Fi i ganol y dref sy'n cynnig mynediad agored trwy gofrestru ac sy'n cyfeirio defnyddwyr at wybodaeth arall am y dref.</li> </ul> </li> </ul>



	<ul style="list-style-type: none"> <li>o Datblygu “Ymgyrch Leol Harlech” wedi’i chyfeirio at y gymuned leol sy’n cefnogi siopa, bwyta, brynu, mwynhau ... yn lleol.</li> <li>o Sefydliadau lleol a phartneriaid i gyd-gynhyrchu cyfres ar-lein a thraddodiadol o ddeunydd hyrwyddo, gan gynnwys i) llawlyfr prynu’n lleol ac ymgyrch bosteri ii) digwyddiadau hyrwyddo a blasu iii) dal i ddefnyddio Facebook a chyfryngau cymdeithasol, hyrwyddo ar y we a defnyddio ffilmiau hyrwyddo byr ac edrych ar ymarferoldeb cerdyn teyrngarwch ymhlith busnesau lleol.</li> </ul>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Cadw, Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sefydliadau cymunedol lleol				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cynllun Lleoedd Arbennig – Cyllid Loteri Treftadaeth</li> <li>▪ Treftadaeth Treflun – Cyllid Loteri Treftadaeth</li> <li>▪ Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2 – Llywodraeth Cymru</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Costau datblygu dyluniadau</li> <li>▪ Costau cyfalaf ar gyfer gweithiau gwella</li> <li>▪ Costau referniw cychwynnol</li> <li>▪ Cyfeirio/cydgysylltu rhaglenni Busnes Cymru a Band Eang Cyflym lawn Cymru</li> </ul>				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>

<b>Cynnig Strategol</b>	<b>Buddsoddiad Castell Harlech - Cam 2</b>				
<b>Thema</b>	<b>Adfywio'r Stryd Fawr</b>				
<b>Disgrifiad</b>	<p>Gyda'r cam cyntaf o adnewyddu yng Nghastell Harlech wedi'i gwblhau, mae cyfleoedd i Harlech adeiladu ar y cyfleoedd yn sgil adfywio treftadaeth am fuddsoddi pellach yn y Castell yn ogystal ag ymestyn profiad y safle Treftadaeth Byd drwy'r dref gyfan. Y gweithgareddau i gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Adnewyddu Porthdy'r Castell. Byddai hyn yn golygu archwiliad pellach o do'r porthdy a gosod lloriau y gellid eu defnyddio ar gyfer sawl swyddogaeth bosibl a dibenion a fyddai'n dod â buddion uniongyrchol i'r gymuned fel lle wedi'i orchuddio ar gyfer digwyddiadau dan do. Gallai fod angen i'r pecyn ystyried sut mae hyn yn ategu gweithgaredd a hyfywedd Theatr Ardudwy yn y dyfodol.</li> <li>▪ Gwella hygyrchedd o amgylch y castell, gan gynnwys gweithiau i'r canllawiau.</li> <li>▪ Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r defnydd o'r ganolfan adnoddau sydd yn yr hen ganolfan ymwelwyr yn y Castell y gellid ei defnyddio fel cyfleuster hyfforddi cymunedol.</li> <li>▪ Ymestyn y profiad addysg a dysgu o fewn y castell a'r tu hwnt trwy ddehongli ar-lein a ffisegol, defnyddio appiau gemau realiti estynedig fel y Dreigiau Bach sydd ar gael yng Nghastell Harlech</li> <li>▪ Cefnogi digwyddiadau a gynhelir gan y gymuned yn y Castell ee dadorchuddio cadair adrodd straeon y cawr, seiliedig ar stori Branwen</li> <li>▪ Ymchwilio i'r syniad o ddarparu Canolfan Wybodaeth i Ymwelwyr o fewn Canolfan Ymwelwyr y Castell</li> </ul>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Cadw, Cymdeithas Twristiaeth Harlech, Cyngor Gwynedd				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Cronfa Arloesi Cynhyrchion Twristiaeth (Croeso Cymru) - dyfarnwyd</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Costau cyfalaf adnewyddu i'r Porthdy a gweithiau hygyrchedd eraill</li> <li>▪ Defnydd am ddim o gyfleuster hyfforddi cymunedol</li> <li>▪ Cyllun grant presennol Croeso Cymru (TPIF)</li> </ul>				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>

Cynnig Strategol	Cymorth Cyfleusterau/Amwynderau Cymunedol
Thema	<b>Manteisio i'r eithaf ar Asedau Lleol</b>
<b>Disgrifiad</b>	<p>Bydd strategaeth sy'n manteisio i'r eithaf ar asedau Harlech yn helpu cydlyniant cymunedol ac yn ychwanegu at y cynnig i ymwelwyr. Mae'r Ganolfan Hamdden a Theatr Ardudwy ill dwy yn darparu cyfleusterau pwysig ar gyfer tywydd gwlyb. Mae Canolfan Gymunedol yr Hen Lyfrgell, Caeau Chwarae'r Brenin Siôr ac amrywiol Goetiroedd o gwmpas Harlech yn cyfuno'r atyniad i'r gymuned ac ymwelwyr yn yr un modd.</p> <p><b>Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy</b> Archwilio'r potensial a helpu gyda'r gofynion adnoddau ar gyfer geisiadau cyllid am weithiau cyfalaf, yn benodol ystafelloedd newid a ffenestri gwydr dwbl. Datblygu cynllun pasport trawsgymunedol ac integreiddio hyn i'r cynnig i ymwelwyr.</p> <p><b>Theatr Ardudwy</b> Tymor byr: sicrhau y bydd y rhaglen isafswm bresennol yn bodloni meini prawf am barhad cymorth gan gyrrff cyllid presennol. Datblygu marchnata. Hyrwyddo a defnyddio'r ased sinema digidol. Hyrwyddo ffryntiad gweithredol. Datblygu rhaglen artistig a all fanteisio ar gyllid prosiectau Cyngor Celfyddydau Cymru. Archwilio mentrau creadigol sy'n cysylltu â lleoliadau a digwyddiadau diwylliannol eraill, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol, gan adlewyrchu statws Safle Treftadaeth y Byd Harlech a'r lleoliad.</p> <p>Tymor hir – Cysylltu'r Theatr â'r defnydd posibl o Wern Fawr yn y dyfodol. Arallgyfeirio'r defnydd a manteisio ar statws Rhestredig Gradd 2* a'r lleoliad trawiadol. Archwilio'r potensial am gaffi/bar/profiad gwledda.</p> <p><b>Hen Lyfrgell – Canolfan Gymunedol</b> Dal i gefnogi cynigion am Ganolfan Gymunedol trwy gais Pawb a'i Le. Bydd cymysgedd o le i adnoddau cymunedol, cegin wedi'i hadnewyddu, lle gwaith i fusnesau bach a seilwaith digidol fel Wi-Fi yn golygu gweithgarwch ar Stryd Fawr Harlech ac yn cyfrannu at fentro lleol a gweithgaredd cymunedol.</p> <p><b>Caeau Chwarae'r Brenin Siôr</b> Cefnogi Parciau Cymunedol Harlech gyda chynigion i wella'r caeau chwarae gyda Map Chwedlau Cymru, lle chwarae a rheolaeth ehangach o le.</p>

	<p><b>Coetir</b>  Gwella mynediad i'r coetir, sy'n eiddo i Goleg Harlech a'i reoli gan Gyngor Cymuned Harlech, sy'n cysylltu safle'r coleg â Ffordd Isaf gyda llwybrau wedi'u clirio a'u gwella, llwybrau gwaith celf a lleoedd ar gyfer dosbarthiadau llesiant awyr agored, celf cymunedol, hamogau, ardal ymlacio a syniadau am bebyll iwert. Coetiroedd eraill fel y rhai sy'n eiddo i Coed Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.</p>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy, Theatr Ardudwy, Llyfrgell Harlech, Parc Cymunedol Harlech, Cyngor Cymuned Harlech, Coleg Harlech, Coed Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>▪ Ymddiriedolaeth Theatrau Hanesyddol</li> <li>▪ Ymddiriedolaeth Paul Hamlyn</li> <li>▪ Cronfa Mentrau Treftadaeth – Cronfa Loteri Treftadaeth</li> <li>▪ Pawb a'i Le – Cronfa Fawr y Loteri</li> <li>▪ Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth – Croeso Cymru</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	Archwilio'r potensial am weithiau cyfalaf ac atgyweirio adeiladau				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>

## Tymor Hir

<b>Cynnig Strategol</b>	<b>Y Syniad o Westy</b>				
<b>Thema</b>	<b>Gwesty i Harlech</b>				
<b>Disgrifiad</b>	<p>Mae'r angen am westy o safon wedi cael ei alw gan y gymuned leol ac wedi ei ddilysu trwy'r astudiaeth hon. Byddai buddsoddiad o'r fath yn dod â buddion lluosog sylweddol i Harlech wrth newid hyd arhosiad ymwelwyr, busnesau bwyd a diod, gweithgaredd gyda'r nos a manteision economaidd ehangach i'r dref fel cynnal gweithgaredd yng nghwrs golff Brenhinol Dewi Sant, gwasanaethu'r farchnad ymwelwyr teuluol ac effaith cadarnhaol ar fusnesau'r dref. Mae'r arfarniad dewisiadau'n cyfeirio cyfleoedd i ddau safle a leolir ar yr A496 sydd y tu allan i berchnogaeth tir partneriaid strategol allweddol. Bydd angen i drafodaethau sy'n parhau gyda'r tirlfeddianwyr perthnasol benderfynu ar y canlynol:</p> <p><b>Safle hen westy Dewi Sant</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Barn gan y tirlfeddiannwr ar y gorchymyn Adran 215, ei anghydfurfio presennol a'r achos cyfreithiol yn sgil hynny. Cyflwr presennol y safle hwn yw'r prif bryder i'r gymuned leol ac mae angen rhoi sylw iddo ar frys. Mae angen trafodaeth ar ddyfodol yr hen adeilad preswyl hefyd gan ei fod yn effeithio ar y lleoliad o'i gwmpas a'r apêl fasnachol.</li> <li>Statws y gwesty 130 o lofftydd a gymeradwywyd ar gyfer y safle a gweithredu hyn.</li> </ul> <p><b>Safle Coleg Harlech</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Mae angen i fwrdd ac ymddiriedolwyr Coleg Harlech ddod i benderfyniad ar ddyfodol eu ased, gydag angen i benderfynu ar ba delerau y cynigir deiliadaeth o'r adeilad, hynny yw a fydd arnynt angen gwarediad rhydd-ddaliadaeth o'r eiddo, neu a fyddant yn cynnig budd prydles hir, ac os felly, beth fyddai'r telerau a gynigid. Byddai'n rhaid i'r bwrdd ddod i farn ar unrhyw ddefnydd arfaethedig o fewn y cynnig dan sylw, yn benodol a ydynt yn bodloni eu gofynion ariannol a moesegol ar gyfer gwaredu ac a yw'r rhain yn cyfrannu at les y dref yn y dyfodol.</li> <li>Bydd angen i'r cynigion ystyried statws rhestredig gradd II* safle Wern Fawr gan gynnwys adeilad y Theatr yn ogystal â chyd-destun ehangach y safle a materion uwchgynllunio ar hyd y gyfres o safleoedd ar yr A496.</li> </ul>				
<b>Partneriaid a Awgrymir</b>	Tirlfeddianwyr perthnasol				
<b>Ffynonellau Cyllid</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Menter Treftadaeth – Cyllid Loteri Treftadaeth yn ddibynnol ar y safle a'r model cyflawni</li> </ul>				
<b>Adnoddau/Costau</b>	<p>Costau gwaredu safle, adeiladu a chyflawni</p> <p>Costau oddi ar y safle</p> <p>Cytundebau S106 ar fuddion cymunedol</p>				
<b>Amserlen</b>	<b>2017-2018</b>	<b>2018-19</b>	<b>2019-20</b>	<b>2020-21</b>	<b>2022 ymlaen</b>


## Harlech – Cylch Twf

Wrth osod blaenoriaethau strategol Harlech, mae rhesymeg a dilyniant i'r gweithredu a'r buddsoddi y mae angen iddynt digwydd.

Cysoni Gweithgareddau seiliedig ar le, Marchnata a Chysylltedd Mae'r angen mynd ati ar unwaith i ychwanegu gwerth a chysoni prosiectau sy'n rhan o weithgareddau presennol sefydliadau cymunedol fel Cymdeithas Twristiaeth Harlech a grwpiau eraill sy'n gysylltiedig â Harlech ar Waith. Mae prosiectau lleol llwyddiannus a ariennir trwy Gynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth Croeso Cymru a diddordeb mewn cysylltu treftadaeth a diwylliant drwy gais Lleoedd Arbennig<sup>5</sup> yn helpu adeiladu profiadau seiliedig ar le. Bydd y gwelliannau a fwriedir o ran seilwaith ac arwyddion i fysiau hefyd yn helpu rheoli ymwelwyr, gydag angen i edrych ar sut i reoli twf mewn ymwelwyr pan fo buddsoddiadau strategol mwy yn digwydd. Gellir hefyd weithredu gwelliannau ffisegol bach fel arwyddion cerddwyr, seddau, llwybrau a dehongli lleol fel rhan o fân-weithiau cyfalaf.

Er bod Harlech wedi'i leoli o fewn ardal gyrchfan Eryri Mynyddoedd a Môr mae angen cyfleu hunaniaeth gryfach i'r dref a'i asedau twristiaeth, gydag angen am ddull amlasiantaeth i helpu adeiladu'r stori a negeseuon y brand. Mae'r wefan Croeso Harlech ar ei newydd wedd yn rhoi sylfaen gref i gyrraedd allan i ymwelwyr gydag angen i edrych ar sut y gall cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau marchnata eraill ee gwasanaeth trên Rheilffordd y Cambrian, ddenu pobl i mewn drwy'r flwyddyn.

Mae'r cysylltiad rhwng yr hyn a gynigir i ymwelwyr a'r lle ffisegol yr un mor bwysig fel bod y profiad canfyddedig o Harlech yn cael ei wireddu pan gyrhaeddir yno. Mae angen felly am rwydwaith busnes mwy integredig sy'n gweithio gyda chyrff aelodaeth presennol fel y gymdeithas dwristiaeth ond sy'n ymwneud â busnesau nad oes a wnelont â twristiaeth, ac nad ydynt efallai yn wyneb y cyhoedd, ond



<sup>5</sup> Cynllun Rhaglen Dreftadaeth y Loteri

sydd eto â rhan economaidd i'w chwarae yn y dref. Mae hyn yn bwysig wrth edrych ar ffyrdd o gyflwyno cynnig cyson o safon uchel i gwsmeriaid, yn ogystal â sicrhau bod busnesau yn ddeinamig ac yn wydn o ran gallu dygymod â newid. Mae hyfforddiant a chymorth mewn marchnata nawws am le a marchnata digidol yn feysydd i sicrhau bod busnesau'n gweithredu fel eiriolwyr yn ogystal ac ystyried ffyrdd aml-sianel o farchnata a gwerthu cynhyrchion a gwasanaethau.

Ar y cyd â hyn, gall prosiectau digidol bach fel cynlluniau Wi-Fi tref gefnogi profiadau ymwelwyr, ymwneud â defnyddwyr, ymestyn arhosiad ac adeiladu gwariant a theyrngarwch. Gan gydnabod bod y buddsoddiadau strategol mwy yn cymryd amser i ddwyn ffrwyth, gall rhywfaint o dreialu gweithgaredd a symbylu datblygiad econoamidd lleol ddigwydd trwy weithgaredd fel prosiectau dros dro, gweithio gyda landlordiaid ac asiantau ar ddefnyddio adeiladau i ddibenion fel siopau celf a chreffft dros dro, marchnadoedd cynnyrch lleol, pwyntiau gwybodaeth i ymwelwyr, ymysg syniadau eraill.

Ochr yn ochr â'r prosiectau cymunedol hyn, gellir mynd ati i ddatblygu dyluniadau ar brosiectau allweddol a phrosiectau cyfalaf, fel y Stryd Fawr, datblygu safle gwesty etc, a thrwy hyn baratoi'r tir am gyllid sylweddol.

### Buddsoddiadau Strategol

Mae nifer o fuddsoddiadau strategol sydd o fudd amlwg i Harlech y bydd angen partneriaid strategol arnynt i chwarae rhan wrth eu cyflawni.

Mae **Maes Awyr Llanbedr** sydd o fewn Ardal Fenter Eryri yn ceisio denu gweithgaredd economaidd a swyddi o werth uchel trwy systemau cerbydau awyr a reolir o bell (RPAS) ac mae ei botensial fel safle maes rocedi yn cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru a Chwmni Awyrofod Eryri. Mae gan y Maes Awyr, sydd ar gyrion deheuol Harlech, y cyfle i greu galw am lety ychwanegol yn ystod ymgyrchoedd profi a gwerthuso ar gyfer RPAS. Yn ogystal, os cymeradwyir y maes rocedi byddai'n denu ymwelwyr o werth uchel a fyddai'n dymuno aros yn

Harlech, cyn ac wedi'r hedfan. Mae gan y maes awyr y potensial hefyd i wasanaethu anghenion twristiaeth golff ac anghenion ymwelwyr gwariant uchel Harlech a Gwynedd, er bod angen cydbwysu hyn yn erbyn materion cynaliadwyedd wrth edrych tua'r dyfodol.

Yn y dyfodol agos, dylid hwyluso cyfleoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi byr gyda'r dref, fel arlwygo, lletygarwch, trafnidiaeth a sectorau busnes eraill. Dylai'r dref a'r gymuned gyfagos elwa hefyd ar unrhyw fuddsoddi digidol yn y maes awyr, fel gwell signal ffôn, cyflymder band eang a'r defnydd o dechnoleg Wi-Fi. Er y gall y maes awyr, am resymau masnachol, ddymuno cadw rhywfaint o'r gweithgaredd o'i fewn, mae cyfleoedd i weithgaredd cysylltiedig gael ei leoli yn nhref Harlech, fel hyfforddiant, cyfleusterau cynadledda, lleoliad mentro oddi ar y safle i gefnogi datblygu ac ymchwil cynhyrchion etc. Bydd hyn yn helpu gosod datblygiadau'r maes awyr mewn fframwaith economaidd ehangach, gan ei gyflwyno fel cyfraniad cadarnhaol i Harlech a'r cylch, yn ogystal ag ehangu cwmpas ceisiadau am gyllid.

**Gwesty.** Mae datblygu Harlech fel lle i aros ynddo ac i grwydro ohono yn flaenoriaeth allweddol os yw'r dref am gynnal nifer o atyniadau allweddol. Byddai datblygu gwesty cyrchfan o 50 i 70 o loffttydd yn dod â llawer o fuddion i'r dref. Yn gyntaf, byddai'n cynyddu'r nifer o welyau o ansawdd uchel â gwasanaeth a'r apêl i ymwelwyr am wyliau arhosiad byr a hirach. Byddai aros yn y dref hefyd yn dod â buddion eilaidd i fusnesau dydd a gyda'r nos, gyda mwy o amser i grwydro, bwyta allan a mwynhau Harlech, gan arwain at gynnydd mewn gwariant ymwelwyr. Mae cyflwyno Cwrs Golff Brenhinol Dewi Sant fel lle ar gyfer teithiau golff a baratowyd yn unswydd, penwythnos golff i ffwrdd a chynnal twrnameintiau hefyd yn ddibynnol ar westy o safon uchel yn Harlech. Byddai hyn yn cefnogi hyfywedd y Clwb a hefyd yn cefnogi'r clwstwr o gyrsiau golff ar hyd Bae Ceredigion, gan gynyddu cynnig integredig yr ardal. O ran Maes Awyr Llanbedr, mae angen cynllunio ar gyfer galw am y lety yn y dyfodol gan gontractwyr, peirianwyr a'r potensial o

ddefnyddwyr maes rocedi. Yn olaf, byddai buddsoddiad o'r fath yn cynhyrchu cyflogaeth, yn agor cadwyni cyflenwi lleol ac yn cael effaith lluosydd ehangach drwy Harlech.

Mae'r flaenoriaeth strategol hon wedi bod yn flaenoriaeth allweddol i Harlech ar Waith dros y blynyddoedd diwethaf. Mae angen dull cyfannol o fynd ati i ddatblygu safle fel bod unrhyw gynllun yn integredig ac yn edrych ar gyd-destun ehangach y dref, mannau cyrraedd allweddol, ansawdd y dyluniad ac yn parhau cymeriad hanesyddol Harlech. Mae hen safle gwesty Dewi Sant a safle Coleg Harlech yn gyfleoedd allweddol ar yr A496 gyda'r ddau ohonynt wedi eu lleoli ar yr echel strategol rhwng rhan uchaf y dref, y cwrs golff a'r traeth.

Gan fod gan y ddau safle berchnogion gwahanol, mae arnynt angen rhywfaint o waith hwyluso wrth gyrraedd ateb integredig fynd i'r afael â phroblemau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r safleoedd yn eu cyfanrwydd.

Mae angen i fwrdd ac ymddiriedolwyr Coleg Harlech ddod i benderfyniad ar ddyfodol eu hased. Os ydynt yn penderfynu fod y defnydd ohono ar hyn o bryd yn rhywbeth y gallant eu hepgor, yna byddai angen iddynt fod yn glir ynghylch o dan pa delerau y cynigid deiliadaeth o'r adeilad.

Mae perthynas hen westy Dewi Sant â safle Coleg Harlech o bwys strategol, o safbwynt ei gyflwr adfeiliedig presennol ac a oes gan y tîrffeddiannwr unrhyw gynlluniau i weithredu ei ganiatâd cynllunio cyfredol neu i wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r dyluniad.

Mae ei gyflwr presennol wedi cael ei nodi gan y gymuned fel un o'r prif bryderon sy'n wynebu'r dref, gyda phobl yn ceisio eglurder ar fwriadau'r tîrffeddiannwr, gan fod y safle'r cael ei weld fel dolur llygad mewn lle arwyddocaol gerllaw'r Safle Treftadaeth y Byd ac yn amlwg weladwy o'r traeth a'r cwrs golff. Mae gorchymyn dymchwel wedi cael ei gyhoeddi ar y safle ac wedi dod i ben yn y cyfamser, gyda'r awdurdod cynllunio lleol yn gosod cosbau pellach a chostau yn sgil hynny ar y tîrffeddiannwr.

Mae angen dealltwriaeth glir ar ddyfodol safle Gwesty Dewi Sant er mwyn cael dull cyfannol o ymdrin â'r safleoedd ac asedau sensitif ac amlwg hyn ar hyd coridor mor allweddol o fewn Harlech.



© Hawlfraint y Goron (2017) Cadw, Llywodraeth Cymru



**Y Stryd Fawr.** Mae buddsoddiad o ansawdd uchel yng Nghastell Harlech gan Cadw yn ddiweddar yn dangos sut y gall ymdriniaeth integredig o dreftadaeth, rheoli ymwelwyr, llety yn y dref ac atgyfnerthu naws am le weithio. Mae agoswydd y Stryd Fawr at y Safle Treftadaeth y Byd yn bwysig, i drigolion lleol yn ogystal ag ymwelwyr. Gan adeiladu ar y gweithgareddau cymunedol seiliedig ar le, mae angen am ymdriniaeth integredig o ardal y Stryd Fawr trwy ddatblygu cod dylunio ar gyfer adeiladau allweddol (tafarn y Lion, y Siop Elusen, adeilad yr Hen Lyfrgell), y strydlun, llecynnau cyhoeddus a'r ffordd ei hun. Mae angen rhoi ystyriaeth bellach i ddod ag ymwelwyr i faes parcio Bron Y Graig a o Ffordd Isaf trwy goetir Coleg Harlech sy'n cysylltu â chanol y dref, fel bod cerddwyr yn cael eu denu trwy'r holl stryd. Trwy gyfuniad o'r ganolfan gymunedol arfaethedig yn yr hen lyfrgell, defnydd cyfamserol, marchnadoedd stryd a chreu mwy o lecynnau i gerddwyr, gallai pobl leol ac ymwelwyr dreulio mwy o amser yn yd ref. Mae gwella'r amgylchedd ffisegol hefyd yn symbylu buddsoddiad sector preifat (ee trwy welliannau i ffryntiadau), adeiladu hunaniaeth i'r dref a hyder busnesau yr un pryd. Byddai angen i waith datblygu dyluniadau edrych ar y Stryd Fawr yn ei chyfanrwydd, gan weithio gyda pherchnogion adeiladau yn ogystal â'r awdurdod priffyrdd ar ganllawiau dylunio, strategaeth parcio a ffordd gynaliadwy ond sensitif o greu mwy o lecynnau cyhoeddus a chynnal mynediad i gerbydau.

Bydd **cysylltedd** yn allweddol wrth adfywio Harlech. Bydd gwell cysylltiad rhwng rhannau uchaf ac isaf y dref a rhwng y Castell a'r traeth yn golygu profiad mwy cydlynol i drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Bydd hefyd yn datrys llawer o'r problemau parcio a mynediad i'r Castell. Mae potensial amlwg am cynllun parcio a theithio a allai fod o fudd i holl ddefnyddwyr y dref. Fe wnaeth CADW symbylu cynllun Bws Hoppa wrth adeiladu'r Ganolfan Ymwelwyr a'r farn oedd fod hwn yn llwyddiannus. Dylid rhoi blaenoriaeth i ymchwilio'n fanwl i botensial hyn. Yn ogystal, mae hefyd angen gwella'r profiad o wneud y daith ar droed o waelod y dref i'r Stryd Fawr, trwy lwybrau tref a bywiogi'r llwybrau. Gwaith syml fyddai datblygu dyluniad manwl.

### Cysoni/Cefnogi Asedau Lleol

Ochr yn ochr â'r buddsoddiadau strategol, mae'r angen i gefnogi cyfleusterau diwylliannol, hamdden, chwaraeon a chymunedol yn her mewn hinsawdd ariannol anodd.

Mae'r cyfleusterau hyn sy'n cael eu rhedeg gan y gymuned yn hanfodol i bobl leol o safbwynt llesiant yn ogystal â chynnig adnoddau tywydd gwlyb i ymwelwyr a thrigolion. Gall gwelliannau ffisegol trwy grantiau cymunedol bach ar gyfer adnewyddu ystafelloedd newid a ffenestri gwydr dwbl yn y ganolfan hamdden helpu costau yn y dyfodol gydag angen hefyd i edrych ar ffyrdd o gynhyrchu ynni adnewyddadwy. Byddai'r mathau hyn o fuddsoddiadau hefyd yn helpu ymddiriedolwyr i edrych yn fanwl ar gyfeiriad strategol yr asedau cymunedol hyn, gan roi amser i ganolbwyntio ar farchnata a gweithio gyda phartneriaid eraill.

Gall y cynnig gwesty hefyd hyrwyddo a chyfeirio ymwelwyr at weithgareddau yn y pwll a'r wal ddringo yn ogystal ag i'r theatr a hithau'n gweithredu fel porthol i'r dref. Os gall y Theatr ddarparu gweithgareddau atodol i'r gwesty, yna mae hyn yn debygol o fod y ffordd fwyaf hyfyr i sicrhau parhad lleoliad diwylliannol cyfoes Harlech.

Bydd y ganolfan gymunedol arfaethedig yn yr hen lyfrgell ar y Stryd Fawr yn cynnig cyfleusterau atodol fel lle mentro, ystafelloedd cyfarfod a Wi-Fi am ddim ac adnoddau cymunedol eraill.

Mae'r angen i integreiddio a thrawsfarchnata cyfleusterau o fewn y dref yn ffordd graff i'r gymuned a mudiadau gwirfoddol hyrwyddo'u hunain i drigolion ac ymwelwyr. Gallai ein cynnig am "Gerdyn Harlech" roi symbyliad i drigolion ac ymwelwyr ddefnyddio'r pwll, wal ddringo a'r theatr lleol, gan gronni ac ailddosbarthu tanysgrifiadau blynyddol i'r sefydliadau hyn. Gellid defnyddio'r Cerdyn mewn siopau a gwasanaethau lleol hefyd fel ffordd o hyrwyddo 'prynu'n lleol'.

Mae brwdfrydedd angerddol dros weithredu cymunedol yn Harlech, ond o fewn y gweithgaredd hwn mae myrdd o grwpiau a mudiadau. Byddem yn argymhell fod partneriaid strategol a lleol yn chwilio am ffyrdd o weithio ar y cyd wrth farchnata a helpu gyda cheisiadau am gyllid. Gall partneriaid strategol fel Cyngor Gwynedd ddal i gefnogi a chyfeirio grwpiau at adnoddau a grantiau ond mae'n dal i fod angen am gydgysylltu lleol.

### Harlech – Cymuned a Chyrchfan Cydlynus

Gall pob un o'r cynigion uchod weithio tuag at:

- Cynnal a chyfrannu at dwf cyfleusterau i drigolion ac ymwelwyr
- Manteisio i'r eithaf ar apêl y Safle Treftadaeth y Byd a'r buddion yn ei sgil i'r dref
- Creu cyrchfan gydol y flwyddyn, sy'n amrywiol ac o safon uchel
- Gwella'r economi leol a chydlyniant cymunedol.

## Camau Gweithredu ac Argymhellion y Strategaeth

### Camau i'w cymryd ar unwaith

1. Annog sefydliadau cymunedol sy'n arwain ar geisiadau a gymeradwywyd, neu a fwriedir, am gyllid Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth, Lleoedd Arbennig a Phawb a'i Le y Loteri ar gyfer seilwaith ymwelwyr, treftadaeth a chymunedol; i chwilio am ffyrdd o integreiddio os caiff cyllid ei gymeradwyo.
2. Annog Cymdeithas Twristiaeth Harlech gyda'u gwaith marchnata a datblygu brand-lle, adeiladu ar eu gwaith gwirfoddol hyd yma: cyfryngau cymdeithasol, ymweliadau gan y cyfryngau, cysylltiadau cyhoeddus strategol, rheoli ymwelwyr ar-safle.
3. Darganfod ffyrdd o ddod â busnesau (gan gynnwys rhai nad ydynt yn ymwneud â thwristiaeth) y dref gyfan at ei gilydd i rwydwaith a all drafod syniadau, anghenion, hyfforddiant, hyrwyddo, defnyddio adeiladau gwag dros dro etc; darparu hyfforddiant a chymorth: digidol, nawws am le, bwyd, etc
4. Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw i baratoi briff dylunio ar y cyd i ardal y Stryd Fawr o'r dref gyda sefydliadau treftadaeth, amgylcheddol a thwristiaeth lleol; sicrhau cyllid, caffael ymgynghorydd dylunio a'i ddefnyddio i sicrhau grantiau cyfalaf.
5. Cadw, Cyngor Gwynedd a phartneriaid lleol i archwilio'r potensial am gynllun Parcio a Theithio sy'n defnyddio bws Hoppa neu debyg i gysylltu gwaelod y dref â'r rhan uchaf. Archwilio terfynfeydd, llwybr, manau codi, amserlen, agweddau tymhorol, seilwaith, defnyddwyr a chostau. Archwilio'r potensial am ddewisiadau eraill 'gwyrrdd' neu ddychmygus yn lle bws.
6. Cyngor Gwynedd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Cadw i ddyfeisio pecyn dylunio sy'n dod â'r i) pyrth mewnol a ii) llwybrau a chylchdeithiau'r dref at ei gilydd, caffael a datblygu dyluniadau.
7. Disgwyl canlyniad y cynnig maes rocedi; Llywodraeth Cymru i hwyluso trafodaethau gyda Chwmni Awyrofod Eryri ar gyfleoedd i ddatblygu cadwyni cyflenwi lleol, gweithgaredd hyfforddi/ymchwil y tu allan i'r safle.
8. Y Cynnig Gwesty
  - a. Argymhell dymchwel hen Westy Dewi Sant a'r hen floc tŵr preswyl ar sail y canlynol:
    - i. Mae'r gymuned wedi nodi'r safle dirywiedig fel y prif bryder sy'n wynebu'r dref, gan ei fod yn ddolur llygad arwyddocaol
    - ii. Effaith ar leoliad y safle Treftadaeth y Byd a golygfeydd allweddol, ac wrth ddynesu at y dref
    - iii. Caiff y safle ei weld fel un sy'n tanseilio hyder masnachol yn Harlech
    - iv. Perygl posibl i iechyd a diogelwch y cyhoedd
  - b. Dal i gynnal deialog gyda Choleg Harlech ar eu strategaeth ar gyfer defnydd o adeilad Wern Fawr yn y dyfodol, yn benodol a yw diwallu anghenion llety gwesty yn flaenoriaeth iddynt.
  - c. Hwyluso trafodaeth rhwng y ddau berchennog tir perthnasol er mwyn sicrhau ateb integredig mewn defnydd tir ac ansawdd dylunio.

## Rhaglen

## Amserlen

Thema	Cynnig	Graddfa Amser					Cost/Adnoddau
		2017-2018	2018-2019	2019-2020	2020-2021	2022 onwards	
<b>PROSIECTAU Â BLAENORIAETH</b>							
Rhoi Harlech ar y Map	1. Buddsoddi mewn gwybodaeth rheoli ymwelwyr – ar-lein a ffisegol – partneriaeth lleol a strategol						£
	2. Gweithgaredd Digwyddiadau – Blwyddyn y Chwedlau a'r Môr (TPIF)						£
	3. Gwelliannau rheoli ymwelwyr (amodol ar gymeradwyaeth)						£
	4. Canolfan wybodaeth beilot yng Nghanolfan Ymwelwyr Castell Harlech						£
	5. Prosiect Lleoedd Arbennig (Diwylliant a Threftadaeth) (amodol ar gymeradwyaeth)						££
Cyhoeddi Harlech/ Crwydro Harlech	1. Ymgyrch Rheilffordd y Cambrian a Safle Treftadaeth y Byd Harlech						£
	2. Datblygu gwasanaeth trafniadaeth integredig						££
	3. Gwella darpariaeth parcio ar gyfer bysiau						£
	4. Gosod arwyddion manwl i ymwelwyr a'r cysyniad meini Ogam						£
	5. Datblygu llwybrau a chylchdeithiau yn y dref						£
Adfywio'r Stryd Fawr	1. Amgylchedd ffisegol – y Stryd Fawr						£££
	2. Datblygu busnesau – y Stryd Fawr						£
	3. Buddsoddiad Castell Harlech – Cam 2						££
Manteisio i'r Eithaf ar Asedau Lleol	1. Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy						££
	2. Theatr Ardudwy						£
	3. Hen Lyfrgell – Canolfan Gymunedol						££
	4. Caeau Chwarae'r Brenin Siôr V						£
	5. Coetir						£
Gwesty i Harlech	1. Galluogi cynnig am westy mewn safleoedd strategol allweddol						£££
Menter yn Harlech	1. Hen Lyfrgell – Canolfan Gymunedol						££
	2. Datblygu Busnesau – y Stryd Fawr						££



## ALLBYNNAU A CHANLYNIADAU

## 6. Allbynnau a Chanlyniadau

### Allbynnau a Chanlyniadau Cysylltiedig â'r Cynigion

Mae'r allbynnau canlynol wedi cael eu hadnabod fel rhai a fyddai'n cael eu cynhyrchu o'r pecyn o gynigion strategol.

#### *Swyddi a Gynhaliwyd*

Anhysbys oherwydd diffyg data.

#### *Mentrau Newydd a Grewyd*

Mae'n anodd mesur hyn gyda gwesty newydd yn llenwi'r hen ddarpariaeth addysgol yn y coleg. Gan ddibynnu ar fuddsoddiad yn ardal y Stryd Fawr, gellid cynnwys rhai mentrau newydd mewn eiddo gwag.

#### *Nifer o Fusnesau Lleol a Gefnogwyd*

Mae tua 35 o fusnesau wedi'i lleoli yn y Stryd Fawr gyda 25 o fusnesau ychwanegol o fewn y sector llety neu fânwerthu y tu allan i ganol y dref. Nid ydym wedi cyfrif am fusnesau yn Llanfair na Llanbedr.

#### *Swyddi a Grewyd (Cyfwerth ag Amser Llawn)*

**Y Cynnig o Westy.** Safon arferol y diwydiant ar gyfer gwestyau pedair-seren yw un aelod o staff i bob dau westai (mae pum-seren fel arfer yn gofyn am gymhareb 1:1). Gan ddefnyddio'n targed o 50 o westeion, mae hyn yn gyfwerth â 25 aelod o staff, gyda'r dyraniad gwirioneddol o hyn yn dibynnu ar y model rheoli a ffeifrir.

Byddem yn awgrymu tua nifer cyfwerth â thua 25 o swyddi amser llawn (FTE), a all gynnwys rhywfaint o rolau rhan-amser fel porthorion a gwasanaethu mewn tŷ bwyta, ac o bosibl rhai tasgau glanhau yn ystod cyfnodau brig.

Y nod fyddai'r uchafswm o ddeiladaeth a chynnig drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, bydd ffactorau tymhorol yn dal i fod, ac efallai yn bydd yn dal i fod angen staff ychwanegol yn ystod ee cyfnodau

gwyliau ysgol. Gall hefyd fod angen staff ychwanegol yn ystod digwyddiadau arbennig pan ddarperir gweithgareddau arbennig a lle dylai deiliadaeth fod ar lefel o 100%.

#### *Safleoedd a Grewyd neu a Ddiogelwyd*

Wrth i'r adroddiad hwn gael ei ysgrifennu, mae 4 o safleoedd masnachol yn wag yng nghanol y dref. Pe bai buddsoddiad pwrpasol ar gael, a gwelliannau i ganol y dref yn cael eu gweithredu, mae mwy o debygolrwydd i'r safleoedd hyn gael eu defnyddio i ddibenion atodol.

#### *Cyfradd Eiddo Gwag*

Mae gan Harlech ar hyn o bryd gyfradd eiddo gwag o 16% o'i gyfanswm stoc, sydd ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru yn 2016, ac yn sylweddol uwch na ffigur Consortiwm Mânwerthu Prydain o 10%. Pe bai buddsoddiad pwrpasol yn cael ei wneud bydd yn disgwyl i'r gyfradd ostwng i rhwng 8% a 4%, gyda 4% y gyfradd gylchdroi naturiol i eiddo.

#### *Mentrau Cymunedol a Ddiogelwyd*

Yn amodol ar gefnogaeth a buddsoddiad, byddai'r mentrau cymunedol canlynol (2 ohonynt) yn cael eu diogelu neu gwella trwy'r cynllun strategol hwn:

- Canolfan Hamdden Harlech ac Ardudwy (pwll a wal ddringo)
- Yr Hen Lyfrgell (cynnig o ganolfan gymunedol)

#### *Tir a gafodd ei Wella*

Mae gwelliannau posibl i dir yn dibynnu ar raddau'r gweithiau, ond bydd yn cynnwys y Stryd Fawr, strydoedd sy'n cysylltu a mannau gerllaw, yn ogystal ag ardal y llifddor islaw'r castell. Bydd y llwybrau tref a mentrau cysylltiedig yn dod â gwelliannau tir ychwanegol i fannau fel coetir Coleg Harlech, y Llwybr Geifr a'r Olygfan, yn ogystal â'r llwybrau a'r strydoedd presennol sy'n cysylltu gwaelod y dref â'r rhan uchaf.

### *Nifer o Brosiectau Seilwaith Digidol*

Byddai 1 cynllun Wi-Fi i'r dref yn cael ei weithredu a'i gynnal i helpu adeiladu twf busnesau lleol ac i ymwneud ag ymwelwyr.

### *Ymwelwyr a Ragamcenir*

Gyda'r ffigurau diweddaraf am bresenoldeb yng Nghastell Harlech yn 103,000, ac o ystyried ymwelwyr nad ydynt efallai'n mynd i'r castell ac yn mynd i draeth Morfa Harlech dyweder yn lle hynny, gallwn amcangyfrif niferoedd ymwelwyr ar hyn o bryd fel tua 200,000 y flwyddyn. Mae gan Croeso Cymru darged twf twristiaeth sy'n seiliedig ar y canlynol:

- mwy o westyau moethus a gwestyau brand
- mwy o gyfleusterau llesiant, fel sbâu
- mwy o westyau treftadaeth sy'n defnyddio adeiladau hanesyddol a thrawiadol
- mwy o atyniadau gydol blwyddyn, gweithgareddau a phrofiadau diwylliannol
- mwy o gynhyrchion arloesol, anarferol ac unigryw.


Ei uchelgais yw am dwf o 10% mewn enillion twristiaeth erbyn 2020. Nid cynnydd a ragamcenir mewn niferoedd ymwelwyr yn unig yw hyn, ond cynllun i gynyddu cyfran o'r farchnad, gwariant y pen, hyd ac amllder arosiadau. Mae hyn yn ystyriaeth bwysig i Harlech yn wyneb ei gyfyngiadau ffisegol a'r cyfyngiadau lle. Gyda gwell mynediad a lleoedd parcio a chyflwyno cynlluniau rheoli ymwelwyr fel gwasanaeth parcio a theithio, dylai fod yn bosibl cynnwys mwy o ymwelwyr yn y dref ac o ganlyniad cynyddu budd economaidd o dwristiaeth gan sicrhau cydbwysedd cynaliadwy gydol blwyddyn rhwng ymwelwyr a thrigolion.

### *Ymwelwyr Tramor*

Caiff ymwelwyr rhyngwladol eu hystyried yn gyffredinol fel marchnad â gwariant cymharol uchel, ond yn hanesyddol maent wedi bod o bwysigrwydd is i Gymru, gan gyfrif am 8% yn unig o'r holl dripiâu aros, a

16% o holl wariant ymwelwyr sy'n aros. Mae'r Alban, Iwerddon a rhanbarthau Lloegr yn denu niferoedd sylweddol uwch o ymwelwyr tramor na Chymru. O ganlyniad, mae cyfran Cymru o'r holl farchnad tripiâu rhyngwladol wedi bod yn gostwng yn raddol o 3.6% i 2.7% a'r gyfran o wariant o 2.15% i 1.86% rhwng 2002 a 2012.

Gyda'r gwell cyfleuster i ymwelwyr yng Nghastell Harlech, cryfhau ei statws fel cyrchfan Treftadaeth y Byd ac ychwanegu llety ymwelwyr newydd o safon uwch, dylai fod yn bosibl agor drysau i'r farchnad dramor, a gwrthdroi'r tueddiadau a ddarlunir isod a darparu twf gwirioneddol yn y sector hwn o'r farchnad.



© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata Arolwg Ordnans 2011 100023387



**Mewnbwn (Gweithgaredd)**

**Allbynnau**

**Canlyniadau**

**Buddsoddi yn y Castell (Safle Treftadaeth y Byd)**

Cynnydd yn niferoedd ymwelwyr

Mwy o sylw i'r Safle Treftadaeth Byd

Nifer a math o ddigwyddiadau cymunedol a gynhaliwyd

Safle Treftadaeth y Byd yn dod â budd cymdeithasol ac economaidd i'r dref

**Gwella'r Stryd Fawr**

Treulir mwy o amser

Cynnydd mewn presenoldeb

Gwario'n lleol

Hyder Busnesau

Lleihad mewn eiddo gwag

Lle amrywiol a thrawiadol

**Integreiddio Trafnidiaeth**

% o bobl sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus

Gwell mynediad at wasanaethau ac atyniadau

Lleihad mewn allyriadau CO2

Ymdriniaeth gynaliadwy o drafndiaeth ac amgylchedd Safle Treftadaeth y Byd

**Cynnal Asedau Cymunedol**

Mynediad at wasanaethau lleol

Nifer o fentrau lleol

Gweithgaredd gwirfoddoli

Cymuned gynhwysol a chydlynus

**Datblygu Gwesty**

Swyddi a grewyd

Cynnydd mewn niferoedd ymwelwyr

Gwario'n lleol

Cynnydd mewn twristiaeth golff

Cefnogi busnesau lleol

Mae Harlech yn ganolfan i aros ac i grwydro ohoni


## Mesur Llwyddiant

Mae'n bwysig i unrhyw weithgaredd a buddsoddiad yn y dyfodol gael ei fonitro fel rhan o'r broses o ddatblygu a chyflawni. Amlinellir detholiad o ddangosyddion isod sy'n amrywio o ddangosyddion Cenedlaethol eu natur i werth economaidd craidd a gwerth ychwanegol cymdeithasol ac economaidd.

DANGOSYDD PERFFORMIAD ALLWEDDOL	METHODOLEG
<b>Dangosyddion lleol</b>	
<b>Economaidd</b>	
Gweithgaredd ymwelwyr ee gwariant, math o lety	STEAM, arolwg stoc gwelyau
Amrywiaeth defnydd dosbarth/math o fasnachwr	Arolwg gweledol
Gweithgaredd cerddwyr (niferoedd yn y dydd a'r gyda'r nos)	Offer cyfrif
Cyfraddau eiddo gwag	Arolwg gweledol
Arolygon hyder busnesau	Arolwg ar-lein/ post
Cyfraddau cyflogaeth	NOMIS - ONS
Dosbarthiad diwydiannol	Cyfrifiad
<b>Amgylchedd</b>	
Nifer o adeiladau sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at y strydlyn	Arolwg gweledol
Ansawdd adeiladau a llecynnau cyhoeddus	Arolwg gweledol
Glendid canol y dref	Arolwg gweledol
<b>Cymdeithasol/Cymunedol</b>	
Newid yn y Cohort Oedran	Cyfrifiad
Arolygon Bodlonrwydd Defnyddwyr Canol y Dref	Arolygon ar stryd/ar-lein

DANGOSYDD PERFFORMIAD ALLWEDDOL	METHODOLEG
"Dangosyddion cenedlaethol" Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	
<b>Amgylchedd</b>	
Lefelau o lygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer.	Cyfrifon llygredd trafndiaeth ar ochr ffordd
Canran o anheddau gyda pherfformiad ynni digonol.	Arolygon perfformiad ynni cartrefi
<b>Economaidd</b>	
Canran o fusnesau sy'n arloesi.	Busnes Cymru/arolwg busnesau lleol
Canran o bobl mewn gwaith cyflogedig, ar gytundebau parhaol (neu ar gytundebau dros dro a heb fod yn ceisio cyflogaeth barhaol) ac sy'n gallu ennill mwy na 2/3 o gyflog canolrifol y Deyrnas Unedig	Arolwg busnesau lleol
<b>Cymdeithasol/Cymunedol</b>	
Canran o bobl sy'n byw ar aelwydydd o amddifadedd materol	Cyfrifiad/arolwg llesiant
Canran o bobl mewn cyflogaeth	Cyfrifiad
Canran o bobl mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant, wedi eu mesur ar gyfer gwahanol grwpiau oedran	Cyfrifiad
Canran o bobl sy'n teimlo'u bod yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu hardal leol	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n fodlon gyda'u gallu i gael at y cyfleusterau a'r gwasanaethau mae arnynt eu hangen	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n fodlon gyda'r ardal leol fel lle i fyw	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n cytuno eu bod yn perthyn i'r ardal; fod pobl o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu'n dda â'i gilydd; a bod pobl yn trin ei gilydd â pharch	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n gwirfoddoli	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n mynychu, neu'n cymryd rhan mewn digwyddiadau celfyddydau, diwylliant neu dreftadaeth o leiaf dair gwaith y flwyddyn	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n siarad Cymraeg bob dydd ac sy'n gallu siarad mwy na dim ond ychydig eiriau o Gymraeg	Arolwg llesiant
Canran o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg	Cyfrifiad/arolwg llesiant

## Cysondeb â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Er bod ffyniant economaidd lle fel Harlech yn un o ddangosyddion allweddol ei lwyddiant, mae'r agweddau cymdeithasol ac amgylcheddol yr un mor bwysig y dyddiau hyn, wrth i rôl a swyddogaeth canol trefi newid ac arallgyfeirio.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod pwyslais ar gyrrff cyhoeddus i feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n gwell gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, ceisio rhwystro problemau a gweithio mewn ffordd mwy cydgysylltiedig. Mae'r cynllun strategol hwn yn gyson ag amcanion a chanlyniadau eang y Ddeddf yn y ffyrdd canlynol:

### Integreiddio

Mae'r angen i ddod â Harlech at ei gilydd mewn ystyr ffisegol a threfniadol yn allweddol i'w rôl fel lle i fyw ynddo yn ogystal ag i ymweld. Er bod rhai o'r cynigion yn ymwneud â chysylltu'r asedau adeiledig, mae angen datblygu hunaniaeth ystyrion i'r dref sy'n cyflwyno cynnig integredig. Mae angen hefyd o fewn tref o'r maint hwn i ddatblygu ffordd gydlynus a chydgyssylltiedig o weithio sy'n ychwanegu gwerth ac sy'n arwain at yr uchafswm o fudd i'r gymuned.

### Tymor hir

Mae'r cynllun strategol hwn yn ymwneud â chyflwyno amryw o gynigion i'r dref a'i chymuned a fydd yn cymryd amser i'w gwireddu ond eto'n cydgyfeirio o ran amcanion cyffredin. Gall rhai camau i'w cymryd ar unwaith adeiladu cysylltiadau yn ogystal â chyflawni newid graddol, gan gyfrannu at gamau integredig. Mae'r rhaglen yn dangos amserlen 5-mllynedd, gyda rhai o'r camau strategol mwyaf, i fod yn realistig, yn mynd y tu hwnt i 2022.

### Rhwystro

Mae lleoedd fel Harlech yn ymwneud ag amrywiaeth a chydaddoldeb cyfle. Mae angen i'r gymuned allu cael at wasanaethau sylfaenol, cyngor, gofal iechyd yn ogystal â chael lle i gymdeithasu a rhyngweithio. Mae nifer o'r cynigion yn ymwneud â darparu hyfforddiant, gwasanaethau cymunedol, byw iach a dysgu gydol oes a mynediad at lecynnau gwyrdd.

### Cydweithio

Mae'r cynllun strategol hwn wedi cael ei ddatblygu trwy ddull cydweithredol a chyfranogol trwy gyfres o ddigwyddiadau rhanddeiliaid lleol a thrwy ymgynghori hygyrch â'r gymuned. Wrth symud ymlaen, mae mwy o angen am gydweithio a gweithio mewn partneriaeth, a hefyd i gyflawni prosiectau trwy weithgarwch cymunedol a gwirfoddoli sy'n helpu gwireddu'r defnydd o asedau a dan-ddefnyddir.

### Cynnwys y gymuned

Mae'n bwysig dal i gynnwys y gymuned a mudiadau lleol er mwyn cynnal cynulleidfya leol sy'n credu yn yr angen i gyfrannu at ddyfodol lle fel Harlech. Mae llunio cynllun gwasanaethau a chynigion yn allweddol am y pum mlynedd nesaf, fel bod effaith o ganlyniad ar weithgaredd, amser a dreulir, teyrngarwch, llesiant cyffredinol a theimlad o fod ag eisiau bod yn rhan o brofiad y dref.



# CYFLAWNI TRWY GYDWEITHIO

## 7. Cyflawni trwy Gydwethio

### Llywodraethu a Rheoli

Mewn strategaeth seiliedig ar le, fel hon; mae hanner y cynigion yn dibynnu ar ymwneud gweithredol yr awdurdod lleol a chyrff strategol eraill; gellir cyflawni'r hanner eraill ohonynt wrth i fudiadau lleol arwain y gwaith o ddatblygu a chyflawni prosiectau.

Wrth fynd ymlaen, mae angen datblygu strwythur cyflawni sy'n ymateb i faint Harlech a hefyd yn deall sgiliau, gwybodaeth, rolau a chyfrifoldebau penodol.

Dylid cydnabod hefyd bod y grŵp ambarél, Harlech ar Waith, wedi cael ei ffurfio a bod angen cynnal ei rôl wrth gyflawni er mwyn sicrhau cynrychiolaeth traws-sefydliadol a pharhad. Mae'r grŵp wedi bod yn canolbwyntio ar "ymgyrch", gyda'r mater o westy wedi bod yn rhan ganolog a haeddiannol o'u agenda yn ddiweddar. Os rhoddir sylw i'r mater allweddol hwn, yna byddem yn awgrymu y gall ehangu ei ymdrechion i feysydd eraill sydd angen sylw a helpu trwy weithio gyda'i gilydd.


Mae'r ddogfen ganllawiau strategol hon felly'n gofyn am gydgysylltu nad yw'n dod oddi uchod ond yn digwydd mewn ffordd deg sy'n cynnal cyd-drafod manwl gyda sefydliadau ac unigolion ar y lefel lleol. Mae angen sicrhau hyn mewn ffordd sy'n ceisio cydgysylltu gweithgaredd trwy Fwrdd Gweithredu Lleol Harlech a thrwy adeiladu'r cynhwysedd lleol trwy gryfhau rôl mudiadau lleol.

Wrth i waith y cynllun strategol symud at ddatblygu a chyflawni, bydd yn bwysig adeiladu ar y dull hwn, gan ddatblygu model cyflawni a fydd yn esblygu rôl y Bwrdd Gweithredu Lleol a grwpiau "tasg" lleol seiliedig ar themâu i) Cyrchfan a ii) Cymuned. Dylai model o'r fath ar gyfer datblygu a chyflawni prosiectau sicrhau:

- Creu cynhwysedd lleol i gyflawni prosiectau, yn enwedig 'enillion hawdd'
- Integreiddio meddwl strategol ac atebion rhwng y Cyngor a gwasanaethau cyhoeddus

- Defnyddio adnoddau a all godi trwy brosiectau fel y prosiect Lleoedd Arbennig (sy'n disgwyl am gymeradwyaeth)
- Codi arian a rheolaeth ariannol ar y lefel addas i fanteisio i'r eithaf ar adnoddau
- Cydgysylltu'r gwaith o gyfathrebu o fewn sefydliadau partner, rhwng partneriaid a hyrwyddo ehangach y dref a'r ardal

Ffigur 9 – Strwythur Cyflawni



Byddai gan y Bwrdd Gweithredu Lleol brif gynrychiolwyr o'r Fforwm Ymgynghorol ac o bob un o'r grwpiau tasg "arweiniol". Byddai gan y bwrdd gynrychiolaeth hefyd o Gyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri, Cadw a Llywodraeth Cymru gydag ymgynghorwyr/arsyllwyr yn cael eu gwahodd ar gyfer prosiect neu eitem penodol. Byddai angen trafodaeth bellach ar gyfansoddiad ac aelodaeth y Bwrdd, y tu allan i'r comisiwn hwn.

### Grwpiau Tasg Thematiig

Cydnabyddwn fod angen parchu bodolaeth ac ymdrechion gwirfoddol nifer o fudiadau yn Harlech a hefyd eu hannibyniaeth.

Mae gwerth fodd bynnag mewn cronni eu gwybodaeth, sgiliau ac adnoddau mewn dau grŵp tasg thematig i helpu cyd-gyflawni rhai o'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon. Rydym wedi awgrymu dau grŵp, y naill yn seiliedig ar Harlech fel cyrchfan a'r llall ar y gymuned, gyda rhai prosiectau strategol mwy ee Maes Awyr Llanbedr, yn cael eu gweld fel rhai trawsbynciol ac y gallai fod angen iddynt gael eu harwain ar lefel uwch y bwrdd.

Byddai'r rolau a'r cyfrifoldeb a awgrymir o fewn y grwpiau tasg hyn yn cynnwys:

- Adolygiad o set sgiliau a chynhwysedd
- Derbyn hyfforddiant a chymorth
- Datblygu cynigion prosiectau gyda phartneriaid
- Edrych ar ffyrdd o integreiddio a chyrraedd canlyniadau strategol
- Adnabod cyfleoedd am gyllid
- Cydgysylltu'r gwaith o gyflawni
- Monitro cynnydd
- Adrodd i'r Bwrdd

Wrth edrych ar y grwpiau tasg penodol, amlinellir isod rai o'r meysydd yr awgrymir canolbwyntio arnynt.

#### *Cyrchfan*

- Cymorth i fentrau twristiaeth lleol
- Y cynnig o westy a chamau cysylltiedig
- Datblygu'r Stryd Fawr a'r safle Treftadaeth y Byd
- Cyhoeddi, pyrth ac arwyddion
- Llwybrau a chylchdeithiau cerdded
- Trafnidiaeth a chysylltedd

#### *Cymuned*

- Cefnogi asedau a chyfleusterau cymunedol lleol
- Rhwydweithio cymunedol, cyngor, allgyrraedd
- Datblygu llysgenhadon lleol
- Datblygu'r syniad o "Gerdyn Harlech"

#### *Cydgysylltu Cymunedol*

Fel y nodwyd gan y gymuned trwy ein proses ymgynghori, mae angen llenwi bwlch presennol mewn darpariaeth a chael cydgysylltydd datblygu cymunedol a fyddai'n cefnogi Bwrdd Gweithredu Lleol Harlech, grwpiau tasg perthnasol a mudiadau lleol. Byddem yn awgrymu creu'r math yma o swydd trwy ei seilio ar brosiect a'i bod yn ffurfio rhan o'r costau rheoli ee y prosiect Lleoedd Arbennig, y cynnig Canolfan Gymunedol.

Gallai rôl o'r fath helpu hwyluso

- a. Gweithio rhwng gwahanol sefydliadau a'i gilydd
- b. Traws-farchnata a hyrwyddo
- c. Adeiladu cynhwysedd ac uwchsgilio
- d. Cyllid a chynaliadwyedd

#### *Cyllid*

Amlinellir isod rai enghreifftiau o'r cyllid sydd ar gael ar gyfer y cynllun strategol hwn i Harlech.

#### *Llywodraeth Cymru*

##### *Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2*

Mae rhaglen i olynu Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 1 ar fin cael ei chyhoeddi yn hydref 2017 ac yn agor ar gyfer ceisiadau ym mis Ebrill 2018. Bydd y meini prawf allweddol yn cynnwys:

- Dull wedi'i dargedu o adfywio, a hwnnw'n cynnwys cyflawni cynllun lle cyfannol gyda chamau gweithredu pwrpasol yn adlewyrchu amgylchiadau lleol unigryw;
- Bod y prosiectau'n fuddsoddiadau trawsffurfiannol ar raddfa fawr sy'n annog clystyru gweithgaredd ac sy'n gyson â chynlluniau rhanbarthol ee Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a bod angen eu targedu i ardaloedd sy'n llai tebygol o elwa'n uniongrychol o brosiectau datblygu economaidd;
- Datblygu dull cydweithredol trwy gonsensws gyda phartneriaid ee sector preifat, trydydd sector, Addysg

Bellach/Addysg Uwch, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, etc.;

- Canlyniadau gweladwy o ran sut maent yn cefnogi amcanion economaidd, cymdeithasol a llesiant amgylcheddol gyda chyfuniad o fesurau pobl a lleoedd a gweithgareddau referniw a chyfalaf.

### *Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol*

Nod y gronfa grantiau cyfalaf hon yw datblygu a gwella cyfleusterau i gymunedau er mwyn mynd i'r afael â thlodi a'i effeithiau. Mae hyd at £500,000 ar gael ar gyfer cyfleusterau sy'n:

- angenrheidiol ac yn cael eu defnyddio gan y gymuned ac yn cynnig gwasanaethau nas dyblygir yn yr ardal o gwmpas
- darparu gwasanaethau sy'n rhwystro neu'n lliniaru tldi a'i effeithiau
- ailgyflwyno neu rwystro colli gwasanaethau cymunedol
- cael eu cefnogi gan y gymuned leol a'u datblygu mewn cydweithrediad â hi
- strategol, ac yn gallu dangos hyn trwy brofi bod ganddynt gefnogaeth yr awdurdod lleol, Cyngor Gwirfoddol lleol y sir, Bwrdd Iechyd Lleol neu bartner tebyg
- gynaliadwy dros y tymor canolig i dymor hir
- darparu, diogelu neu ailgyflwyno gwasanaeth gwerthfawr i'r gymuned fel mynediad at undeb credyd, swyddfa bost, llyfrgell, y siop olaf yn yr ardal, ymysg meini prawf cymhwysedd eraill

<http://gov.wales/topics/people-and-communities/communities/grants/community-facilities-programme/?lang=en>

### *Cynllun Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth (TAIS)*

Mae'r cynllun Cymorth Buddsoddi Amwynderau Twristiaeth ar gael i'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a sefydliadau di-elw.

Cronfa fuddsoddi sy'n targedu prosiectau amwynderau yn y sector twristiaeth yng Nghymru yw'r Cynllun hwn. Bydd cefnogaeth o rhwng £25,000 a £128,000 yn cael ei ystyried.

Uchafswm cyfanswm y gwariant ar brosiect cymwys yw £160,000. Y nod yw:

- datblygu cyfleusterau twristiaeth cynaliadwy o safon
- ychwanegu gwerth at brofiad ymwelwyr
- creu safon, arloesi a naws am le

<https://businesswales.gov.wales/sites/business-wales/files/tourism/TAIS%20-%20Guidance%20Document%20E%20130617.pdf>

### *Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth (TISS)*

Hyd at £500,000 ar gael ar gyfer prosiectau buddsoddiad cyfalaf. Cronfa fuddsoddi yw'r Cynllun sy'n cynnwys cymysgedd o gyllid i'w dalu'n ôl a chyllid nad oess angen ei dalu'n ôl, yn targedu prosiectau buddsoddi cyfalaf cymwys yn y Sector Twristiaeth yng Nghymru. Gellir ei ddefnyddio naill ai i uwchraddo cynnyrch presennol neu i greu cynnyrch newydd o ansawdd uchel. Mae amrediad y gronfa o £25,000 i £500,000 (cymorth) gydag allbynnau o swyddi, budd economaidd ac ansawdd yn feini prawf ac ystyriaethau allweddol.

<http://gov.wales/topics/tourism/tourism-investment-support-scheme/?lang=en>

### *Cronfa Arloesi Cynhyrchion Twristiaeth (TPIF)*

Diben y gronfa hon yw gweithio gyda phartneriaid yn y sector twristiaeth ledled Cymru i gyflawni targed twf o 10% a nodwyd yn y strategaeth twristiaeth. Nod yw gronfa yw annog cydweithio agosach rhwng consortia, partneriaethau a grwpiau masnach twristiaeth a datblygu a gwella'r cynnig i ymwelwyr a fydd o fudd i'r sector twristiaeth, cymunedau lleol ac yn allweddol, yn helpu tyfu'r economi twristiaeth mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd angen i gynigion prosiectau fodloni'r meini prawf canlynol:

- datblygu neu wella cynhyrchion twristiaeth sydd wedi cael eu hadnabod fel blaenoriaethau o fewn y strategaeth a'r cynllun gweithredu twristiaeth
- eu bod yn gydnaws â dull thematig 'Blynyddoedd Profiad' Croeso Cymru
- diwallu anghenion un neu fwy o segmentau targed Croeso Cymru o'r farchnad
- dangos y gallu i gael effaith yn y farchnad dros gyfnod hirach o amser

<https://businesswales.gov.wales/zones/tourism/finance>

#### *Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020*

Caiff y rhaglen hon ei hariannu gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yr Undeb Ewropeaidd a chan Lywodraeth Cymru. Cafodd Rhaglen Datblygu Gwledig Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020 ei mabwysiadu gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 26 Mai 2015.

<http://gov.wales/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/wales-rural-development-programme-2014-2020/?lang=cy>

Cyllid Loteri

#### *Rhaglen Pawb a'i Le*

Mae gan y rhaglen Pawb a'i Le gyllideb flynyddol o £17.8 miliwn i ariannu prosiectau cyfalaf a reffeniw sy'n cefnogi gweithredu cydgyssylltiedig gan bobl i wneud yn cymunedau yn lleoedd gwell i fyw ynddynt. Bydd yn cefnogi prosiectau lleol a phrosiectau sy'n gweithredu mewn mwy nag un ardal ddaearyddol, yn rhanbarthol neu ledled Cymru. Nod Pawb a'i Le yw: "Galluogi pobl i weithio gyda'i gilydd dros gymunedau cryfach, cyfiawner cymdeithasol a gwell amgylcheddau gwledig a threfol." Gall Pawb a'i Le ariannu prosiectau sy'n cyflawni un neu fwy o ganlyniadau canlynol y rhaglen:

- cymunedau mwy bywiog

- gwell cysylltiadau cymunedol
- gwell amgylcheddau, gwasanaethau cymunedol ac adeiladau lleol.

Gall mudiadau neu sefydliadau wneud cais am gyllid o £5,001-£1 miliwn dros gyfnod o hyd at bum mlynedd. Gall y rhaglen ariannu cymysgedd o brosiectau reffeniw a chyfalaf

<https://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/people-and-places>

#### *Rhaglen Wledig: Grantiau Cymunedol*

Mae'r Rhaglen Loteri hon yn gwahodd grwpiau cymunedol i geisio am gyllid i fynd i'r afael â thlodi gwledig ym Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy.

Mae grantiau o rhwng £10,000 a £350,000 ar gael i grwpiau y bydd eu gwaith o fudd i gymuned â phoblogaeth o 10,000 neu lai. Er nad yw'r mathau o weithgareddau y gellid eu hariannu wedi eu pennu, byddai angen i geisiadau ddangos sut mae'r grwpiau yn gwneud unrhyw un neu fwy o'r canlynol i fynd i'r afael â thlodi:

- Gwella llesiant
- Codi dyheadau
- Adeiladu cyfalaf cymdeithasol – gwella'r sgiliau sydd ar gael yn y gymuned
- Cynyddu gwydnwch tuag at amgylchiadau heriol.

Gallai hyn gynnwys themâu fel cyflogaeth ac incwm, trafndiaeth a'r gallu i gael at wasanaethau, band eang gwael ac allgáu digidol, tlodi tai a thanwydd a galw am wasanaethau lles a gwasanaethau cynghori.

<https://www.biglotteryfund.org.uk/global-content/programmes/wales/rural-programme-community-grants>

#### *Treftadaeth Treflun*

Mae'r rhaglen Treftadaeth Treflun ar gyfer cynlluniau sy'n helpu cymunedau i wella amgylchedd adeiledig hanesyddol ardaloedd cadwraeth sydd mewn angen o fuddsoddiad ledled y Deyrnas Unedig. Maent yn cefnogi partneriaethau o fuddiannau lleol, rhanbarthol a



chenedlaethol sy'n ceisio adfywio ardaloedd hanesyddol o dan anfantais economaidd er budd trigolion lleol, gweithwyr ac ymwelwyr. Gallwch wneud cais am grant o rhwng £100,000 a £2 filiwn. Mae dwy rownd i'r broses o wneud cais.

Mae'n ariannu cynlluniau sy'n gwneud gwahaniaeth parhaol i dreftadaeth, pobl a chymunedau yn y Deyrnas Unedig. Caiff cynllun Treftadaeth Treflun ei lunio o bortffolio cytbwys o brosiectau sydd â'r potensial gyda'i gilydd i adfywio a thrawsnewid ardaloedd cadwraeth mewn angen o fuddsoddiad.

<https://www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/townscape-heritage>

#### *Menter Treftadaeth*

Mae'r rhagle Menter Treftadaeth ar gyfer prosiectau sy'n ceisio sicrhau twf economaidd trwy fuddsoddi mewn treftadaeth. Mae'n bennaf ar gyfer sefydliadau mentro cymunedol i'w helpu nhw i achub adeiladau a safleoedd hanesyddol sydd wedi eu hesgeuluso a'u dychwelyd i ddefnydd cynhyrchiol hyfyw.

Mae Menter Treftadaeth wedi cael ei gynllunio i bontio'r bwlch ariannu sy'n rhwystr ased hanesyddol sydd angen ei atgyweirio rhag cael ei ddychwelyd i ddefnydd buddiol a masnachol. Bydd yr achos dros gyllid grant yn dibynnu ar fod 'diffyg' o ran cadwraeth. Ystyr hyn yw lle mae gwerth presennol ased treftadaeth ac ychwanegu'r gost o'i adfer yn ôl i ddefnydd yn fwy na gwerth yr ased ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Trwy'r Fenter Treftadaeth mae'n ariannu:

- pryniant ased treftadaeth mewn angen o fuddsoddiad;
- gwaith cadwriaeth hanfodol, fel atgyweiriadau strwythurol i adeilad hanesyddol;
- gwaith i ddod ag adeiladau a safleoedd gwag a diffaith yn ôl i ddefnydd masnachol.

Mae hefyd yn ariannu gweithgareddau i helpu pobl ymddiddori yn y dreftadaeth gan gynnwys;

- hyfforddiant mewn cadwraeth, mentora, dysgu, rheoli neu sgiliau digidol i bobl sy'n cyflawni'r prosiect;
- darparu gweithgareddau neu wybodaeth sy'n galluogi pobl i ddysgu am dreftadaeth yr adeiladau neu safleoedd yn eich prosiect Menter Treftadaeth.

Mae hefyd yn cefnogi gwaith i'ch helpu chi i ddatblygu a rheoli'ch prosiect, fel:

- prisiadau, ffioedd proffesiynol neu'r costau sy'n gysylltiedig â chael y caniatadau statudol angenrheidiol;
- ymchwil arbenigol i sicrhau bod y gweithiau cadwraeth a datblygu'n cael eu harwain gan ddealltwriaeth drylwyr o arwyddocâd yr ased treftadaeth a'i anghenion atgyweirio;
- paratoi arfarniad datblygu;
- cyflogi staff y prosiect.

<https://www.hlf.org.uk/looking-funding/our-grant-programmes/heritage-enterprise>

#### Erail

##### *Sefydliad Elusennol Trusthouse*

Mae Trusthouse yn rhoi grantiau ar gyfer costau rhedeg neu gostau cyfalaf untro i elusennau a sefydliadau di-elw yn unol â meini prawf sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u penderfynu gan yr Ymddiriedolwyr.

Ym mis Gorffennaf 2008, fe wnaeth yr Ymddiriedolwyr adolygu eu polisi grantiau a phenderfynu canolbwyntio ar brosiectau sy'n mynd i'r afael â Materion Gwledig ac Amddifadedd Trefol. Mae meysydd penodol sy'n berthnasol i Harlech yn cynnwys

**Cymorth Cymunedol.** Er enghraifft: gwaith gyda phobl ifanc; canolfannau cymunedol; cefnogaeth i ofalwyr; prosiectau pobl hŷn; help i ffoaduriaid; cymorth i deuluoedd; trafndiaeth gymunedol; prosiectau chwaraeon; adsefydlu cyn-droseddwyr, prosiectau camdefnyddio alcohol a chyffuriau; rhwystro trais domestig ac ymdrin â'i effeithiau.

**Celfyddydau, Addysg a Threftadaeth.** Er enghraifft: prosiectau celfyddydol i bobl ag anableddau; celfyddydau perfformio neu weledol sydd ag effaith cymunedol amlwg a chryf; prosiectau addysg amgen; addysgu atodol; prosiectau treftadaeth mewn ardaloedd morol neu ddiwydiannol sy'n cynnwys pobl leol ac sydd â budd cymunedol gweladwy.

[www.trusthousecharitablefoundation.org.uk](http://www.trusthousecharitablefoundation.org.uk)

